

ECO'R WYDDFA

RHIF 380

MEDI 2010

PRIS 50c

ENNILL SIALENS BADEN POWELL



LLONGYFARCHIADAU mawr i Amy Caitlin Williams o Stryd Goodman, Llanberis, ar dderbyn Gwobr Sialens Baden Powell y Girl Guides. Dyma'r anrhydedd uchaf bosib yn y Girl Guides, a'r cyntaf erioed i gangen Llanberis.

Mae Amy wedi bod yn rhan o fudiad y Girl Guides ers 8 mlynedd, gan ymuno gyda'r Rainbows pan yn 5 oed, ac yna symud ymlaen i'r Brownies a'r Girl Guides. Cychwynnodd weithio'n llwyddiannus tuag at ennill bathodynau ac mae wedi dangos ymrwymiad llwyr i'r mudiad.

Er mwyn derbyn Gwobr Sialens Baden Powell bu rhaid i Amy weithio yn galed am ddwy flynedd gan wneud ymchwil a gwaith ar sawl pwnc, gan gynnwys dathlu amrywiaeth, ymwybyddiaeth fyd-eang a byw yn iach yn ogystal â threfnu noson am ymwybyddiaeth o anabledd i gangen y Guides yn Llanberis. Er mwyn cyflawni'r sialens, fe aeth Amy ar benwythnos preswyl i Froneirion, Llandinam, yn ddiweddar i gwblhau Antur Baden Powell.

Cyflwynwyd y wobwr i Amy

gan Margaret Kelly, Comisiynydd Rhanbarth Arfon, nos Fercher, 2ail o Fehefin, yng Ngwesty'r Padarn Lake yn Llanberis.

Ar y noson cynhaliwyd 'ocsiwn addewidion' llwyddiannus iawn gan y Guides i godi cyfanswm o £655 i fudiad y Guides yn Llanberis.



Yn y rhifyn hwn:

- Cau Capel Seion
- Newyddion o'r Cynghorau
- Hen Gloc - a stori olaf Siencyn
- Corau yn codi arian

LANSIO TAFLEN CYLCHDAITH LLYN PADARN

Yn dilyn llwyddiant digamsyniol Llwybrau Llanddeiniolen, penderfynwyd cael taflen debyg yn disgrifio'r daith o amgylch Llyn Padarn. Menter Fachwen oedd yn gyfrifol am y cynllun, gan roi sylw i'w safleoedd hwy yng Nghwm Derwen a Chwm y Glo. Cynlluniwyd y daflen gan Gareth Roberts, a chynhaliwyd y lansiad swyddogol yn Nghaffi Menter Fachwen yng Nghwm y

Mae croeso i unrhyw un ymuno â'r daith, a does dim angen archebu lle ymlaen llaw. Ond cofiwch fod rhwng pedair a phum milltir o gerdded, a rhai rhannau serth ac anwastad, felly argymhellir esgidiau cryf a dillad addas rhag ofn cawod (neu fwy!). Bydd cyfle ar y ddwy daith i glywed yr hanesion y sonnir amdanynt yn y daflen - a rhai eraill na chafodd eu cynnwys.



Kate Thoms a Gareth Roberts yn lansio'r daflen

Glo ar 14eg o Orffennaf.

Yn wahanol i daflen Llwybrau Llanddeiniolen, un daith yn unig sy'n cael ei darlunio ar gylchdaith Llyn Padarn, gan arwain y cerddwr o amgylch y llyn a disgrifio'r nodweddion naturiol a dynol a welir ar y ffordd.

I gyd-fynd â'r daflen, bydd Gareth Roberts yn arwain dwy daith o amgylch Llyn Padarn yn ystod mis Medi. Bydd y daith gyntaf yn cychwyn o gyntedd y Mynydd Gwefru, Llanberis am 1.30 bawn Sadwrn, Medi 4ydd, a'r ail daith yn cychwyn o Gaffi Menter Fachwen, Cwm y Glo am 10.00 bore dydd Iau, Medi 9fed.

Troedio Llwybrau Llanrug a Chwm y Glo

Bydd taflen Llwybrau Cyhoeddus Plwyf Llanrug yn cael ei lansio yn y Sefydliad Coffa, Llanrug ar nos Fercher, Medi 8fed am 7.30. Bydd cyfle i weld arddangosfeydd o sut y paratowyd y daflen a cheir sgysiau gan Gareth Roberts, cynllunydd y daflen, a Dafydd Whiteside Thomas. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael. Mynediad yn rhad ac am ddim. Croeso cynnes i bawb.

ECO'R WYDDFA

RHIF 380

MEDI 2010

Argraffwyd gan Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Erthyglau a newyddion
at ohebwyr pentref neu i**

Penarth
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA

Straeon ac erthyglau ar e-bost i
alwenaowen@gmail.com
neu Tir Iarl, Llandwrog LL54 5TE
neu storiau@ecorwyddfa.co.uk

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS SUL, MEDI 19

Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MEDI 30

Dyddiad Gosod
Nos SUL, MEDI 26
Sefydliad Coffa Llanrug

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Rhifyn	Dyddiad Copi i Law	Dyddiad Plygu	Ble
Medi	Awst 22	Medi 2il	Llanrug (y wasg yn plygu)
Hydref	Medi 19	Medi 30	Penisarwaun
Tachwedd	Hydref 1	Hydref 28	Llanberis
Rhagfyr	Tachwedd 21	Rhagfyr 2il	Caethro
Nadolig	Rhagfyr 5	Rhagfyr 16	Ysgol Brynrefail

Llythyrau

Annwyl Olygydd
Cyfle i chi roi gwybod am eich
hoff gerddi yn

Mwy o Hoff Gerddi Cymru

Mae Gwasg Gomer yn gofyn am
eich cymorth chi. Aeth deng
mlynedd heibio ers cyhoeddi
Hoff Gerddi Cymru, sef casgliad
o gerddi mwyaf adnabyddus ac
annwyl y genedl.

Erbyn hyn mae'n bryd
cyhoeddi *Mwy o Hoff Gerddi
Cymru* felly mae Gomer yn
gofyn i chi a'ch darllenwyr i roi
gwybod i ni am eich ffefrynnau.
Bydd y casgliad yn
rhychwantu'r digrif a'r difrifol,
cerddi hir a cherddi byr, hen
ffefrynnau a thrysorau newydd.
Bydd hon, unwaith eto, yn
gyfrol anhepgor ar gyfer pob
silff lyfrau yn y wlad.

Does dim rhaid i'ch dewis
fod yn gerdd astrus uchel-ael;

gall fod mai hen bennill yw'ch
ffefryn, neu rigwm neu gwpled
efallai. Mae popeth yn cyfrif.
Felly, os gwelwch yn dda, ewch
ati i feddwl ac yna i gysylltu â ni
yn Gomer! Croeso i chi gysylltu
â mi am fwy o fanylion neu am
sgwrs helaethach.

Elinor Wyn Reynolds yw'ch
cyswllt. A fydddech chi cystal â
gyrru ebost yn nodi'ch hoff
gerdd ataf fi:
elinor@gomer.co.uk Neu gyrru
llythyr at Elinor Wyn Reynolds,
Gomer, Parc Menter Llandysul,
Llandysul Ceredigion SA44 4JL
neu ffoniwch 01599 363090.

Gan ein bod am gyhoeddi
erbyn Nadolig 2010 ystyriwch
mai mis meddwl yw mis Medi -
cysylltwch â fi bryd hynny.

Gan obeithio y medrwyd fod
o gymorth ac y clywn ni gan
eich darllenwyr yn y man
Yn gywir

ELINOR WYN REYNOLDS
Golygydd Llyfrau Cymraeg i
Oedolion

Yr Hen Bont

(Cofio'r Prifardd Iwan Llwyd)

Mae'r bont 'ma'n wacach rhywsut - hebo ti...

Bardd yr Haf a'i hanfarwolodd, â'r lle

â'r tylluannod! Daw estron di-ri

arni'i ddotio ar y 'criw' gwyd i'r ne,

cip roddant i'r plac a'th gerdd ar gopr gwyrdd -

jyst gwneud yn saff am enwau'r moelydd maith

cyn clicio camra - (tyst pan ânt i'w ffyrdd).

Ond, mae dy 'Creiriau' arno'n blaen mewn iaith

bron mor hen â ffurfiau'r esgeiriau hyn -

Fe'i ceraist - oll - a deall dwfn, - a'r plac

nawr eglura'n goeth a chain o Pen'llyn

i'r oes a wêl, am oes yr iâ a'i drac -

minau gofiau pan groesaf yr hen bont -

y fo, a thi yn awr, a'r golled front

NORMAN CLOSS

E-BOST NEWYDD I'R ECO!

Dyma gyfeiriad newydd sbon i chi-
ecorwyddfa@gmail.com

Gallwch anfon eich lluniau a'ch storïau yma o hyn ymlaen.
Os nad oes gennych gyfrifiadur, ac am roi llun neu ddarn o
ysgrifen i mewn, ewch ag o i

Gwynhaf Hughes, Glasgoed, Ffordd Llanberis, Llanrug
ac fe wnaiff ei sganio a'i roi yn ôl i chi'n syth.

Wrth gwrs, mae'r hen ddulliau o roi deunydd i'r Eco yn dal
i weithio, h.y. gohebwyr pentref a'r post.

Gallwch anfon stwff i alwena.owen@gmail.com
neu i'r golofn Chwaraeon drwy anfon at
richard.llwyd@yahoo.co.uk

DOES DIM ESGUS DROS

BEIDIO CYSYLLTU EFO'R ECO

RHODDION

£25: Marian, Minallt, Bro
Elidir, Dinorwig, er cof am
chwaer a brawd-yng-
nghyfraith; Er cof am Eifion
Williams, Stad Tref Eilian,
Waunfawr gan ei dair merch,
Sylvia, Betty a Linda.

£15: Eleri a Llywela,
Glanffynnon, Llanrug.

£10: Marian Thomas,
Trawsfynydd; Selwyn
Griffith, Penisarwaun; Megan
Jones 12, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug; Di-
enw; Margaret Druce, Tan y
Cae, Bethel; Euronwy
Roberts, 8 Trem Eilian,
Brynrefail; Teulu Morannedd,
Cwm-y-Glo.

£5: Elisabeth Evans, Pen Parc,
Bethel; Mrs Ann Owen, 48
Rhydfadog, Deiniolen;
Maureen, 32 Stryd Newydd,
Deiniolen; Ellis Wyn a
Margaret, 6 Ffordd Deiniol,
Deiniolen; Len a Catrin, 1
View terrace, Deiniolen;
Helen Evans Munro, Cynan,
Llanrug

Clwb Cinio Arfon

Mae Clwb Cinio Arfon yn
cyfarfod ar nos Wener cyntaf pob
mis, yn y CABAN, Brynrefail ac
yr ydym yn chwilio am fwy o
aelodau. Os am noson hwyliog,
anffurfiol gyda bwyd da a sgwrs
yn y fargen, ymunwch â ni a
chael blas ar beth sydd i ddod yn
ystod y flwyddyn. Ffoniwch
Carys Williams (01286) 871754
neu Eluned Roberts (01286)
880252

Esgobaeth Bangor
MAWL MEDI
2010

OFFEREN AR
GÂN

Nos Sul, Medi 12fed
6.00 yr hwyr

Eglwys Gadeiriol Deiniol
Sant Bangor

Pregethwr:

Yr Hybarch Shirley
Griffiths

Archddiacon Wrecsam
CROESO CYNNES I BAWB

DIOLCH

Dymuna Meirion, Berwyn,
Bryn a theulu y ddiweddar
Elfrys Jones, Minafon, Clwt y
Bont, Deiniolen, ddatgan eu
diolch i bawb am bob arwydd
o gydymdeimlad a
ddangoswyd tuag atynt yn eu
profedigaeth o golli gwraig,
mam, mam-yng-nghyfraith a
nain annwyl iawn. Diolch am
y llu cardiau, ymweliadau,
galwadau ffôn a'r holl roddion
ariannol tuag at Seindorf
Arian Deiniolen.

£1,000 I HOSBIS CUDECA FOUNDATION

CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS YN CODI ARIAN

Yn rhifyn y diwethaf o'r Eco cafwyd hanes taith y Côr yn Ne Sbaen. Nid gwyliaw yn unig oedd y daith, ond i gadw sawl noson mewn eglwys a chanolfannau pentrefi i godi arian i elusen o ddewis Mair Maitinez, trefnydd y daith.

Yn ddiweddar fe gyflwynodd Mair sic o £1,000 i Hosbis y Cudeca Foundation yn Malaga ar gyfer pobl â chancr.



Mair Martinez gydag aelodau o'r Côr.

CODI ARIAN AT GRONFA TAITH AWSTRIA CÔR DINAS BANGOR



Norman Evans yn arddangos gosod blodau yn nhe p'nawn y Côr ym Mhen y Bryn, Waen Wen.

Yn ystod wythnosau'r haf bu'r Cor yn brysur efo sawl cyngerdd yn Llandudno, fel arfer, gyda derbyniad gwresog iawn gan sawl cynulleidfawr yn Eglwys St. John yn enwedig, ac Eglwys Y Drindod.

Bu'r Côr hefyd yn canu yn Eglwys Betws y Coed. Yr unawdwyr oedd Norman Evans, Bas a Gareth Hughes, Euphonium. Arweinwyd y Côr gan James Griffiths gyda Lowri Roberts Williams yn cyfeilio. Ar nos Sul 22 Awst canodd y Côr yn Eglwys y Drindod Sanctaidd Llandudno.

Ar ddydd Gwener 3 Medi canodd y Côr i nifer o Americanwyr oddi ar long

enfawr yng Nghaergybi. Canodd y Côr mewn pedwar ymddangosiad yn ystod y dydd yn hen eglwys Sant Cybi. Cafwyd derbyniad gwyb ymhob un o'r cyngherddau hanner awr.

Ar brynhawn Sadwrn, 21 Awst, cynhaliwyd P'nawn Te tuag at gronfa taith Awstria y Côr, ym Mhen y Bryn, Waen Wen, cartref Mair a James Griffiths. Yn ystod y prynhawn cafwyd arddangosfa gosod blodau gan Norman Evans, aelod o'r Côr. Mae Norman yn enillydd mewn sioeau pwysig iawn gan gynnwys Sioe Môn, lle cafwyd ddwy wobwr gyntaf eleni ac un wobwr arbennig am ei waith.

MERCHED Y WAWR - RHANBARTH ARFON - A 'REMAP'



Nesta Thomas, Llywydd Pwyllgor er budd yr Anabl, Merched y Wawr, Rhanbarth Arfon yn cyflwyno'r sic i Eryl Roberts, Llywydd Remap gyda rhai aelodau o bwyllgor Merched y Wawr ac Eifion Hughes, Ysgrifennydd Remap a David Palmer, gwirfoddolwr.

Glywsoch chi erioed am REMAP? Ni chlywsom ninnau chwaith nes i ni dderbyn cais oddi wrth Mrs Eryl Roberts yn gofyn a allem ystyried yr elusen yma fel ein tasg i godi arian tuag ati eleni. Daw'r enw Remap o lythrennau cyntaf y teitl Saesneg ond nid oedd yn gweithio mor hwylus yn y Gymraeg. Y teitl llawn yw Panel Cyngori a Chreu Offer technegol i Bobl Anabl. Tipyn o gamp fyddai ffurfio gair o'r llythrennau yna! Y nod yw cynorthwyo pobl ag anableddau i adennill sgiliau colledig ac i gyflawni rhai newydd gan obeithio gwella eu safon bywyd ac ehangu eu ffiniau. Prif Therapydd Galwedigaethol yn Ysbyty Gwynedd oedd Eryl cyn iddi ymddeol a chafod gais gan Dr Kevin Doughty o Brifysgol Bangor i ffurfio cangen o Remap yng ngogledd-orllewin Cymru tua pymtheg mlynedd yn ôl.

Mae pedair cangen arall yng Nghymru, sef gogledd-ddwyrain Cymru, de Cymru, Gwent a Sir Benfro. Mae'r gangen sydd yn berthnasol i ni yn cyfarfod yn Ysbyty Eryri, Caernarfon, i drafod y ceisiadau a chynllunio'r gwaith.

Gwirfoddolwyr sydd wedyn yn gwneud y gwaith yn eu cartrefi a'u gweithdai gan ailgylchu llawer iawn o ddefnyddiau, e.e. Hen fframiau cerdded. Ysgrifennydd y gangen yw David Hughes o Foelfre.

Cawsom gyfarfod i gyflwyno'r sic o £2,5565 i'r elusen yng ngweithdy'r gof, David Palmer, sydd yn byw yn y Groeslon ond yn wreiddiol o Morecambe. Mae'n grefftwr arbennig ac wedi gwneud llawer o waith i'r elusen hon.

Mae'r arian yn brin a'r anghenion yn fawr, felly diolchwn am lafur gwirfoddol y crefftwyr yma. Pe baech yn hoffi cyfrannu drwy rannu eich sgiliau, cyflwyno defnyddiau addas neu gynorthwyo mewn unrhyw fodd, fe fyddai'r gymdeithas yn ddiolchgar iawn. Os oes gennych angen cymorth neu wybodaeth, cysylltwch gyda Eryl ar (01286) 675384.

Hoffem ddiolch yn fawr unwaith eto i drigolion Rhanbarth Arfon am eich haelioni. Fe fyddwn yn ailddechrau gyda'r gwaith eto ym mis Medi ac yn siŵr o ddod ar eich gofyn unwaith yn rhagor. Diolch yn fawr.

WAVELL'S
Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,

Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

**MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**

CERIS JONES

Teglan, Stâd Talybont

LLANRUG

677362

neu symudol

07979620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

CLWB 300. Enillwyr y Clwb am fis Awst oedd: £30: Mrs C. Jones, Bryn Gwenallt; £20: Mr Derfel Parry, Cae March; £10: Mr Haydn Jones, Rhandirmwyn.

ESTYNNWN groeso cynnes i Dr Siwan Gwilym i Feddygfa Waunfawr a Llanrug. Bu'n feddyg teulu yng Nghaerdydd ond mae bellach wedi dychwelyd i'w bro enedigol yn y gogledd. Gobeithio y bydd hi'n hapus fel rhan o'r tîm meddygol.

MERCHED Y WAWR. Bydd y tymor newydd yn dechrau nos Iau, 23 Medi, am 7.30 o'r gloch yn y Ganolfan. 'Masnach Deg' fydd testun cyflwyniad Angela Roberts. Croeso cynnes, fel arfer, i'r aelodau a gobeithiwn yn fawr groesawu aelodau newydd ac y gwelwn rai o'r cyn-aelodau'n penderfynu ailymuno. Mae gennym raglen ddifyr ar eich cyfer.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Ar Orffennaf laf aeth aelodau'r Sefydliad ynghyd â rhai o Sefydliad Brynrefail a chyfeillion gyda bws Derfel Owen o Rhiwlas i ymweld â 'Llaeth y Llan', Llanefydd. Ar ôl cyrraedd aeth Mrs Valmai Roberts â ni o amgylch y gerddi prydferth a rhoddodd dipyn o hanes sut y bu iddi hi a'i gŵr drefnu'r gerddi. Wedyn aethom i'r tŷ i gael te bendigedig ynghyd â chyfle i brofi peth o'r iogwrt sy'n cael ei gynhyrchu yno. Cawsom hefyd dipyn o'r cefndir sut y bu i'r ddau benderfynu canolbwyntio ar gynhyrchu iogwrt. Cyn mynd adref cawsom gyfle i fynd i weld yr adeilad lle'r oedd yr iogwrt yn cael ei wneud a chael cyfle i brynu rhai. Roedd pawb wedi mwynhau y trip yn fawr.

Bydd y cyfarfod nesaf yn y Festri am 1.30pm ar Fedi'r 2il pryd y bydd Miss Enid Owen,

Tremadog, yn rhoi sgwrs ar Batagonia. Croeso cynnes i aelodau newydd.

LLONGYFARCHIADAU i Gwyneth (Ellis) Ty'n Llidiart, ar lwyddo i ateb y cwestiynau yn gywir ar y rhaglen deledu Dim ond Un ac ennill y wobr o gael teithio o'r Iseldiroedd adre'n ôl i Gymru i ymweld â'i theulu. CERDDORIAETH.

Llongyfarchiadau i Mared Rhys, Eryri Wen, ar lwyddo yn yr arholiad chwarae piano Gradd 4. Da iawn chdi, Mared. Dal ati, nei di ddim difaru.

DAWNSIO DISGO.

Llongyfarchiadau i Megan Tomos, Angorfa, Megan Lowe, Ger y Ffynnon, Meleri Law, Cynnant Lodge a Tesni Haf, Rhiw, y pedair yn aelodau o barti Dawnsio Disgo Bethel a ddaeth fuddugol mewn cystadleuaeth Dawnsio Disgo ym Mhrestatyn.

LLWYDDIANT.

Llongyfarchion i'n pobol ifanc ar eu llwyddiant yn yr arholiadau ysgol a choleg. Dymunwn bob llwyddiant ichi wrth ichi gamu ymlaen i'r dyfodol.

DATHLU PEN-BLWYDD. Dymunwn longyfarch Ilid Bryn, Perthi a Christopher Williams, Tal Arfon, a fu yn dathlu eu pen-blwydd yn ddeunaw oed yn ystod gwyliau'r haf.

Bu Mrs Emsul Jones, Stad Bro Waun, yn dathlu ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed. Llongyfarchiadau ichi, Emsul.

Mae Catrin yn awyddus i ni longyfarch nain, sef Mrs Yvonne Beech, Rose Mount, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 60 oed.

Ddechrau mis Awst bu Mrs Betty Hughes, Collfryn, a Mrs Winnie Evans, Lleifior, yn dathlu cyrraedd eu 91 mlwydd oed.

Llongyfarchiadau calonnog i chi i gyd.

DYWEDDIAD.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Wenna Williams, 5 Ael y Bryn ar ei dyweddiad â Malcolm Aindow o'r Bontnewydd.

PRIODAS. Yn ystod mis Awst priodwyd Karen Roberts, Sŵn y Gwynt a Rhydian Cuff. Maent wedi ymgartrefu yn Abercynon. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da ichi eich dau.

PRIODAS AUR. Dathlu cyrraedd eu Priodas Aur y bu Iestyn a Brenda Jones, Tŷ Ni yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau mawr ichi.

BABIS BACH NEWYDD. Daeth Llywela a Dafydd Davies, Stad Tref Eilian yn nain a taid i dri babi bach newydd. Ganwyd efeilliaid i Fiona a Paul, Celt a Kai, brodyr i Kian a Caleb. Merch fach, Abi, a anwyd i'w merch arall, Claire a Simon, sy'n byw yng Rhosgadfan. Dyma Mr Gwynedd a Nancy Williams, 2 Stad Bro Waun yn hen daid a nain eto.

Ganwyd mab, Tomi John, i Kenny a Louise, Pine Cottage, brawd bach i Connor, Kelly a Tania.

Wyres, Anna Jên, a ddaeth i Glenys a Haydn, Rhandirmwyn, merch fach i Alaw a Rheinallt, a chwaer i Elinor.

Ganwyd merch, Talia, i Helen a Jon yn Bolton, chwaer fach i Nathan ac wyres i Eifion a Rose Ann Hughes, Stad Tref Eilian.

Daeth John Gwynedd a Cadi, Nant, yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganwyd merch i Lynnsey a Meilir. Maent wedi ei galw yn Efa Non.

Hefyd, dyma'r tro cyntaf i Roy ac Eirwen Jones, Cynefin, ddod yn daid a nain. Ganwyd merch fach, Noura Gwen, i'w merch Kailey a'i phriod, Ben.

Llongyfarchiadau ichi i gyd a mwynhewch gwmni y rhai bach.

ADREF O'R YSBYTY. Croeso

adref o'r ysbyty wedi cael llawdriniaeth i Mrs Lyn Brown, 2 Ael y Bryn. Derbyniodd Mrs Eirwen Jones lawdriniaeth penglin newydd yn Ysbyty Gwynedd. Mewn ysbyty yn Lerpwl derbyniodd Mr John Ellis, Ty'n Llidiart, lawdriniaeth i'w gefn. Bu Cadi Wyn, merch fach Emma a Chris, Stad Bro Waun, yn Ysbyty Alder Hey yn derbyn triniaeth i'w llaw fach. Mae Efa, ei chwaer fawr, yn brysur yn helpu mam i edrych ar ei hól.

Gobeithiwn eich bod oll yn gwella ac yn cryfhau bob dydd.

Mae Siôn Tudur, Rhoslyn, wedi gwella wedi iddo dorri ei arddwrn ac mae Alun Ellis, Bryn Gwyrfa, hefyd yn gwella wedi iddo frifo yn go arw mewn damwain ar yr Wyddfa.

CYDYMDEIMLO. Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mr Gwilym Parry, 7 Bryn Golau. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i briod, Angela, Denis a Tina, ei ddwy ferch, a Carl, ei fab a'u teuluoedd yn eu profedigaeth drist o golli priod, tad a thaid oedd mor annwyl iddynt.

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs Catherine Cooper a'r plant, Tu Ucha'r Ffordd, yn eu profedigaeth o golli Mr Terrence Cooper, priod a thad annwyl.

Bu farw Mr Louis Thomas o 'Louis a'r Rockers', tad annwyl Rowan, 15 Stad Tŷ Hen. Cydymdeimlwn yn ddwys â thi yn dy golled.

Cydymdeimlwn yn ddwys hefyd â Margaret (Smith) a'i phriod, Derek, yn eu profedigaeth o golli tad Margaret yn ddiweddar, Mr Bert Smith.

Daeth y brofedigaeth o golli ei thad i ran Mrs Gwenda Griffith, Trefeddyg hefyd. Cydymdeimlwn â chi yn eich colled o golli tad a thaid annwyl iawn.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf hefyd at Siân Thomas, Tŷ Ysgoldy, yn ei phrofedigaeth

Siop Waunfawr

(Howard a Debbie)

*Pay Point, Papur Newydd,
Cardiau Cymraeg, Cylchgronau,
Bwydydd, Nwyddau Tŷ*

Ffôn: (01286) 650834

Diolch am gefnogi'r fenter newydd

ar agor 7.30 - 6.30

8.00 - 6.00 (Sadwrn)

9.00 - 12.00 (Sul)

e-bost: siopwaunfawr@live.com

SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go iawn

Ffôn: (01286) 650218

Parhad newyddion Waunfawr

hithau o golli ei mam yn ddiweddar.

Y tristwch o golli mam ddaeth i ran Mrs Jen Rowlands, Angorfa, hefyd. Cydymdeimlwn â chi yn eich colled o golli mam a nain annwyl.

Yn dawel yn ei gartref yn Ty'n yr Onnen, bu farw Mr John Griffith Jones, (Twm Ty'n Ronnen). Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Olwen a Helen a'u teuluoedd yn eu colled drist o golli tad a thaid a oedd yn annwyl iawn iddynt.

Dymuna Olwen a Helen ddiolch am bob caredigrwydd a chydymdeimlad a amlygwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli eu tad.

ACHOS DA. Mae Karen a Marc Clack, Stad Bro Waun, eu teulu a'u ffrindiau, wedi cerdded taith o bedair milltir a hanner er mwyn codi arian tuag at yr elusen SANDS Gwynedd ac maent wedi llwyddo i gasglu yn agos iawn i £1,000. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i brynu cyfarpar achub bywyd yn Uned Mamolaeth Ysbyty Gwynedd. Dymunant ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

Maent hefyd yn gofyn yn garedig am wirfoddolwyr sy'n mwynhau gwau a chrosio i wau blancedi a dillad babis ar gyfer yr Uned. Byddent yn ddiolchgar o bob cyfraniad o ddillad babanod. Cysylltwch â Karen ar (650633). Diolch yn fawr iawn.

DIOLCH. Dymuna Mrs Emsul Jones, Stad Bro Waun, ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y cyfarchion, cardiau a'r rhoddion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 80 oed.

DYMUNO YN DDA. Gyda thymor yr hydref wrth y drws bydd llawer yn cychwyn gyfra mewn ysgol, goleg neu swydd. Dymunwn y gorau a phob hapusrwydd i bob un ohonoch.

DIOLCH. Hoffai Lesley, 4 Stad Tŷ Hen, ddiolch i bawb o'i theulu, cymdogion a ffrindiau

am eu gofal a'u caredigrwydd yn ystod ac yn dilyn ei arhosiad yn yr ysbyty yn ddiweddar. Gwerthfawrogwyd hyn yn fawr iawn.

GERDDI BACH. Dros yr wythnosau nesa bydd disgwyl i bobol ymateb beth ddylid ei wneud â Gerddi Bach ym mhen draw'r pentref. Gobeithio y gwnewch ymateb i'r holiadur sy'n cael ei ddosbarthu o gwmpas yr ardal. Byddwn yn cynnig sawl opsiwn, er mai'r Cyngor fydd â'r gair terfynol.

Yn gywir, Eurig Wyn, Cadeirydd y Cyngor Cymuned. ANGEN MWY O DAI Fforddwy. Roedd y diddordeb a ddangoswyd gan y cyhoedd yn y tai fforddiadwy yn Llys y Waun, Waunfawr, yn dangos yn glir y dylid fod wedi adeiladu mwy ohonynt, yn ôl aelod blaenllaw o'r cyngor cymuned lleol.

'Dim ond 4 allan o 17 tŷ oedd yn "fforddiadwy" ac roedd hynny'n sicr y annigonol,' meddai cadeirydd Cyngor Cymuned Waunfawr, Eurig Wyn.

Ychwanegodd: 'Rydym yr ddiolchgar o ymdrechion Ta Eryri yn darparu hynny o da fforddiadwy oedd ar gael ac yr gwerthfawrogi eu cydweithrediad gyda'r cyngor cymuned.'

Cysylltiadau:

EURIG WYN (650512)

HEULWEN, TAI ERYRI (889232)

CLWB Tŷ STESION. Mae Clwb Tŷ Stesion (y Ganolfan, yr Urdd a'r Blaid) yn ailddechrau yn yr Hydref. Nosweithiau i'w cofio i'ch calendr:

Sadwrn, Tach 20: Dylan a Neil a Bob Galvin

Sadwrn, Ion 29: Tudur Owen, y digrifwr.

Sadwrn, Mawrth 26: John ac Alun.

Bydd y nosweithiau'n cychwyn am 8 o'r gloch yn nhafarn y pentref, Waunfawr. Gwerthir tocynnau.

CEUNANT

WEDI GRADDIO!

Llongyfarchiadau i Ceri Roberts, Arwelfa, Ceunant ar ennill Gradd ym Mhrifysgol Bangor - mae Ceri eisoes wedi cael swydd Nyrsio yn Ysbyty

Gwynedd.

Llongyfarchiadau hefyd i Tomos Jones, Glaslyn, Ceunant sydd wedi ennill Gradd ym Mhrifysgol Aberystwyth - fe fydd Tomos yn dilyn Gradd MSc yn yr Hydref.

Pob dymuniad da i chi eich dau i'r dyfodol.

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn

Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255

MEWNFORIO YR ALMAEN SWEDEN	AUDI	SEAT	PORSCHE	VOLKSWAGEN
	DIESEL	PETROL	CHWISTRELLIAD	ARBENIGWYR
	SKODA	BMW	PEUGEOT	FIAT
	CLUTCHES TYRBO	BRÉCS	ABS	AIR CON

***Cymhwyster*
BOSCH**
i roi gwasanaeth i'ch car
heb effeithio ar
y warant*
Dewis arall dibynadwy
yn lle'r Prif Ddeliwr
* Gyda rhai amodau

Trwsio cerbydau a gwerthu partiau sbâr
Lle da y gellwch ei fforddio

Stâd Cibyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
(01286) 673559 www.a-v-w.co.uk

ADVANCED VEHICLE WORKSHOPS	GWASANAETH i'r Car	BOSCH Service	OFT
VOLVO	MERCEDES	SAAB	

UNIONI OLWYNION CAM BELTS TRYDANOL

GERAINT OWEN CARPEDI

CARPEDI • VINYLS • TEILS

CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

Sychlanhau • Altro
Ailwnïo
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: **870088**

SWIGOD A SEBON

GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

DIOLCH. Dymuna Mr Emlyn Davies ddiolch am y cardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb.

DIOLCH. Dymuna Megan Jones, 12 Ffordd Glanffynnon, Llanrug, ddiolch o waelod calon i'r teulu a ffrindiau am y llu cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da ar achlysur dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb.

DATHLU 125 MLYNEDD

Nodir yn y *Caernarvon and Denbigh Herald* ar 30 Gorffennaf 1864, fod gwir angen eglwys ym mhentref Llanberis, Llanberis Isaf yr adeg honno, gan fod y boblogaeth wedi cynyddu dros bedair gwaith yn y chwe blynedd yng ngweithlu'r chwarel. Daeth hyn i fod gan gyflwyno'r eglwys newydd i Sant Padarn a'i chysegru ar ddydd Mercher, 24 Mehefin 1885, sef dydd Gŵyl Geni Ioan Fedyddiwr.

Penderfynwyd dathlu'r pen-blwydd arbennig yma gan ffurfio Pwyllgor Dathlu bychan rai misoedd yn ôl i drefnu'r gweithgareddau. Rhaid canmol aelodau'r pwyllgor am eu dyfalbarhad, eu hegni a'u gweledigaeth yn trefnu dathliad llwyddiannus dros ben. Agorwyd yr wythnos ar ddydd Sul, 20 Mehefin, gyda Gŵyl Flodau hyfryd ar thema Gwyliau'r Eglwys. Roedd hefyd arddangosfeydd ar hanes yr eglwys a gweithgareddau cysylltiedig â Sant Padarn.

Am 7.30 y.h. Bu Cymanfa Ganu lwyddiannus iawn (a recordiwyd gan Radio Cymru) dan arweiniad Iwan W. Williams gyda Gareth Jones wrth yr organ, y cyntaf yn un o organyddion Sant Padarn a'r ail yn organydd Sant Peris. Cyfrannwyd eitemau gan gorau Dyffryn Nantlle, Dyffryn Peris a Lleisiau Lliwedd.

Bu'r eglwys yn agored bob dydd drwy'r wythnos o hanner dydd ymlaen i roi cyfle i bawb weld yr arddangosfeydd blodeuog tra'n mwynhau paned.

Ar ddydd Llun, cerddodd mintai mewn pererindod o eglwys hynafol Sant Peris i Sant Padarn, gyda'r ieuenctid yn cymryd eu twrn i arwain gan gario'r groes.

Rhoes disgyblion Ysgol Dolbadarn gyngerdd gwerth chweil ar y nos Fawrth i eglwys

lawn ac ar y nos Fercher bu Te Parti i blant yr Ysgol Sul a'r Eglwys Fach (Ysgol Sul i blant dan oed ysgol) ar thema Oes Fictoria. Roedd hwyl arbennig ar chwaraeon yr Oes ar ôl gwledda. Piti na fuasai Wedi Saith wrth ddarlledu o'r parti, wedi dangos rhai o'r gwisgoedd a sbri'r chwaraeon.

Daeth Gŵyl Geni Ioan Fedyddiwr ar ddydd Iau, 24 Mehefin, a dathlwyd y pen-blwydd gyda Offeren yr Ŵyl gyda'r Esgob Andrew yn llywyddu a phregethu. Da oedd gweld cyn-offeiriaid y plwyf gyda ni, Yr Hybarch Alun Hawkins a'r Parchedig Philip Hughes. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Parchedigion Peter Pritchard, Emyr Owen, Vittoria Hancock a Deiniol Morgan. Da hefyd oedd gweld cymaint o oedolion a fu yn aelodau o'r eglwys pan yn ifanc wedi dod o bellter i ymuno yn y gwasanaeth a'r dathlu.

Dilynwyd y gwasanaeth gyda phryd helaeth o fochyn wedi'i rostio. Bu sgwrsio brwd tra'n bwyta gan rannu atgofion o'r Ysgol Sul, y Band of Hope a'r 'Steddfod ers llawer dydd.

Fe ddaeth nifer dda i'r Te Mefus ar bnawn Gwener gan fwynhau'r Ŵyl Flodau yr un pryd.

Clowyd yr wythnos o ddathlu gyda chyngerdd ar y nos Sadwrn. Arweinydd y noson oedd Stephen Edwards, a fagwyd yn Sant Padarn llun be ei daid, y Parchedig D.P. Thomas, yn Rheithor. Yr unawdwyr oedd dau o ddoniau lleol, sef Elin Mai, aelod o'r eglwys ond yn gweithio yn Glasgow, a Timothy Ward sydd yn dysgu cerddoriaeth yn Llundain. Pob diolch i'r ddau am fod mor barod i ddod atom. Mwynhawyd eitemau gan y grŵp Jazz Rag, gyda'n Darllenwyd Lleyg, Alan Wilcox ar y bas dwbl. Bu cyfraniad Côr Rygbi'r Gogledd, dan arweiniad Geraint Roberts, yn ardderchog.

Cawsom longyfarchiadau ar y dathlu gan lu o bobl o bell ac agos ac, fel y dywedodd y teulu Trelouw o'r Iseldiroedd - 'Roedd y croeso yn arbennig a'r awyrgylch yn hyfryd'.

Estynnir llongyfarchiadau a diolch twymgalon i'r holl aelodau a fu mor weithgar a brwdfrydig yn gosod yr arddangosfeydd bendigedig, yn gweini bwyd ac yn cyfrannu mor hael o'u hamser a'u harian.

Cytuna pawb â Min y Marian

yn ei englyn i Sant Padarn:

Mawredd sydd yn ei muriau,
yn addurn

Dan noded y creigiau:
Mangre clod a defodau,
A'r gwir yn blaenori'r gau.

A Rol Williams yntau:

Sant Padarn - tros ei chanrif
A ddenodd lu aneirif,
I deimlo'r bywiol wynt yn falm
A'u salmau clod yn genllif.

R.D. JONES

LLONGYFARCHIADAU i Laura, Bon Marche, Stryd Fawr ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 21 oed,

YSGOL DOLBADARN

Ffarwelio. Diwrnod olaf y tymor cynhaliodd ddisgyblion Blwyddyn 6 Wasanaeth Ffarwelio pryd y bu iddynt sôn am eu profiadau mwyaf arbennig yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Pob dymuniad da iddynt yn yr ysgol uwchradd. Cofiwch alw i'n gweld.

Roedd yr ysgol yn ffarwelio â nifer o staff hefyd. Mae Miss Elizabeth Williams wedi bod ar y staff ers 16 mlynedd gan roi cefnogaeth werthfawr i nifer o unigolion; mae wedi ei phenodi i swydd cymhorthydd yn Ysgol Pen Y Bryn, Bethesda. Ers pedair blynedd y mae Ilid Humphreys ar y staff ac mae hi wedi ei phenodi i swydd athrawes fabanod yn Ysgol Tregarth. Y mae Lowri Rhys a Lowri Williams wedi bod mewn swyddi llanw dros famolaeth eleni a'r ddwy wedi eu penodi i swyddi parhaol mewn ysgolion eraill ar gyfer Medi. Diolch hefyd i Rhian Jones am gyflenwi dros famolaeth ac i Elin Morris am ei gwasanaeth hithau dros y flwyddyn.

Tripiau 2010

Cerddofa'r BBC. Cafodd plant Blynnyddoedd 2 a 3 gyfle i fynd i wrando ar Gerddofa y BBC yn Theatr Gogledd Cymru yn Llandudno. Cawsant brofiad cofiadwy iawn.

Tai Celtaidd. Bu plant Blwyddyn 2 hefyd yn cael blas o fywyd mewn tŷ Celtaidd yn ystod eu hymwelid â Melin Llynnon ar Ynys Môn.

Trip Pili Palas. Roedd genethod Blwyddyn 1 yn hapus iawn i afael mewn neidr yn ystod Trip

Y Babanod i Pili Palas.

Eisteddfod Llangollen. Cafodd disgyblion blynnyddoedd 5 a 6 ddiwrnod cofiadwy iawn yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen

Newyddion Chwaraeon

Mabolgampau'r Ysgol. Buom yn ffodus i gael tywydd sych i'n mabolgampau ar 2 Gorffennaf. Padarn oedd y tŷ buddugol eleni. Thomas Jones gafodd y mwyaf o farciau ymhlith y bechgyn efo Justin Owen ac Aaran White yn gydradd ail.

Megan Hughes Jones enillodd Dlws y merched a Molly Ellis yn ail. Manon Roberts enillodd ras y mamau a Kenny (brawd Justin B15) ras y tadau.

Gala Nofio'r Ysgol. Cafwyd Gala

Darren Jones

Contractiwr Teilsio

CEGINAU

**YSTAFELLOEDD
YMOLCHI**

A LLORIAU

**9 Rhos Rug
Llanrug Caernarfon**

**(01286) 669090
Mobile-07894818783**

Dilys

Trin Gwallt Teithiol

Trin gwallt merched,
dynion a phlant
yn eich cartref



Symudol:

07919 897898

Ffôn:

(01286) 871869



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys
a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch
â **Gomer Roberts**

Ffôn : **01286 870462**

Symudol : **07962 712368**

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er
mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

Nofio lwyddiannus dydd Mercher olaf y tymor. Seiont oedd y tŷ buddugol eleni. Enillwyd medal aur y bechGyn gan Danny Jones, efo'r brodyr Oliver ac Aaron White yn gydradd ail. Roedd tair merch yn rhannu'r safle cyntaf eleni - Sioned Phillips, Cadi Panton a Mari Jones efo Medi Owen yn ail.

Mabolgampwyr Dan Do. Wedi dod i'r brig yn lleol, bu tîm yr ysgol yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Gwynedd, gan ddod yn drydydd.

Bu i'r ysgol gael cryn lwyddiant mewn gemau eraill yn cynnwys pêl-rwyd a chriced.

Pytiau eraill

Dros yr wythnosau diwethaf mae disgyblion y Babanod wedi bod yn brysur efo'r artist Heather Lowe yn creu murlun i'w buarth. Mae wedi bod yn brofiad gwerth chweil. Diolch i Gyngor y Celfyddydau am y gefnogaeth.

Cafwyd ymateb da iawn i gyfraniad yr ysgol i ddathliadau 125 mlynedd yr Eglwys. Diolch i'r disgyblion a'r staff am eu holl waith caled.

Dymuniadau gorau i Lowri Jones a Darren Owen ar eu priodas ddiwedd Gorffennaf.

Fe gymerodd yr ysgol ran eleni eto yng nghystadlaethau Arlunio Bywyd Gwyllt a drefnir gan Sw Bae Colwyn gan gipio sawl gwobr. Mae'r tlysau yn rhai

arbennig iawn.

Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r Ffair Haf. Cafwyd noson hwyliog ar waethaf y tywydd gwlyb.

Gweithgareddau Hamdden a Chystadlaethau

Mae llawer o bwyslais yn cael ei roi bellach ar hybu cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chadw'n iach. Dyma flas o rai o'r gweithgareddau sydd wedi eu cynnal dros dymor yr haf:

Ysgol y Môr. Cafodd disgyblion Blynnyddoedd 5 a 6 wythnos o hyfforddiant ym Mhlas Menai gan dderbyn tystysgrif am eu llwyddiant.

Canŵio yn Llanberis. Diolch i Joanne Worby (rhiant) a dau gydweithiwr, cafodd disgyblion Blwyddyn 4 flas o ganŵio ar y llyn lleol. Roedd yn brofiad cofiadwy iawn.

Rhyd-ddu. Bu disgyblion Blwyddyn 5 ar gwrs preswyl i Rhyd-ddu. Buont ar deithiau cerdded hynod o ddifyr.

Bydd Cyfarfod Blynnyddol o bwyllgor Canolfan Gymdeithasol Llanberis yn cael ei gynnal yn Y Ganolfan am saith o'r gloch yr hwyr ar Nos Fawrth, 14eg Medi. Mae gan bob enwad yn y pentref hawl i gael cynrychiolydd ar y pwyllgor.

Y Dyn Cig

Mae busnes cig Bryn Afon wedi bod mewn bodolaeth ers blynnyddoedd bellach ac mae John Hughes-Jones, ei wraig Alwena a'u mab Iwan wedi cydweithio yn y busnes ers 1989. Maent yn gwerthu cig yn lleol, ym Mhen Llŷn, Sir Fôn ac yn Nyffryn Conwy - sy'n ardal eang iawn.

Ond mae eu 'Rhostio Mochyn' bellach yn enwog ac yn mynd o nerth i nerth. Gwaith penwythnosau yw hyn gan amlaf ac mae'r achlysuron yn amrywiol iawn erbyn hyn. Maent wedi paratoi partiön priodas, penblwyddi, dathliadau a ffeiriau ac mae ambell achlysur yn gwbl gyfrinachol er mwyn rhoi syrpreis i rywun. Yn ogystal â chig mochyn, maent yn paratoi cig oen a chig eidion.

Mae gan John nifer o straeon am y dathliadau hyn a bu raid iddo unwaith aros ar draeth Nefyn i ddisgwyl i'r llanw droi cyn gallu gadael.

Mae'n debyg mai'r achlysur

mwyaf iddo baratoi ar ei gyfer oedd yn ystod mis Mehefin eleni pan drefnodd 'Y Gogs' - Wyl Rygbi Ewropeaidd ar gyfer cyn chwaraewyr rygbi. Croesawyd mil tri chant o bobl o bymtheg o wledydd i Gaernarfon i chwarae rygbi a dathlu wedyn yn y castell. A phwy oedd yn gyfrifol am fwydo'r holl dyrfa? Ia, John. Paratowyd wyth mochyn mawr ar eu cyfer yn ogystal â salad. Dyna i chi gamp!

Yn ystod y blynnyddoedd diwethaf mae'r teulu wedi arall gyfeirio. Mae Alwena yn cadw Gwely a Brecwast (5*) yng Nghil y Bont yn Crawia. Mae lle yno i chwech aros a hefyd mae ganddynt faes Clwb Carafanau ar gyfer pum carafán. Yn fwy na hynny, mae ganddynt stad ddiwydiannol fechan ym Mryn Afon gydag wyth o denantiaid. Mae un lle gwag yno ar hyn o bryd (e.e. ar gyfer plymar neu drydanwr) os oes gan rywun ddiddordeb.

Braf yw gweld pobl leol yn llwyddo ac yn ffynnu - pob dymuniad da i'r dyfodol a gobeithio y cewch rostio llawer mochyn arall.



John ac Ifan yn cael saib bach yng Nghastell Caernarfon - dim ond 8 mochyn i fynd!



Criw Ysgol Dolbadarn ddaeth yn 3ydd ym Mabolgampau Dan Do Gwynedd



Ffarwelio â Blwyddyn 6. Pob lwc iddynt!

Gwasanaethau Garddio Gorwel

01286 650761
07773 020424

Planu Llwyni
Planhigion a Llysiau
Tori Gwair a Gwrychoedd
Tocio Palu a Chwynu
Tacluso a Gofal Tymhorol
Gwella Safon Tir
Glanhau Llwybrau, Tywarchu
CWBL YSWIRIEDIG



ORIEL
CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys



www.fframia.com

FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922

www.fframia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

CHWILOTA

COFIO

Dros y blynyddoedd bwm yn pwysleisio'r angen i gofnodi 'enwogion bro'; y cymeriadau a'r unigolion rheini sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol mewn gwahanol feysydd i'w broydd genedigol neu i froydd eraill yng Nghymru a thu hwnt, ond heb gael eu cyfrif yn ddigon 'enwog' i'w cynnwys yn y Bywgraffiadur Cymreig am rhyw reswm neu'i gilydd. Mae angen 'Brograffiadur' ar bob ardal yng Nghymru. Dyma ddau gofnod annigonol tuag at y rhestr faith o bobl a wnaeth gyfraniad sylweddol i fywyd Cymru ag sydd â chysylltiadau â'r fro hon.

Ers i'r rhifyn diwethaf o'r 'Eco' ymddangos ddeufis yn ôl, collwyd dau gymeriad oedd â chysylltiadau â'r fro. Dichon bod enw un ohonynt yn adnabyddus i'r mwyafrif o'r darllenwyr, oherwydd bu Huw Roberts yn cyfrannu'n selog i'r golofn hon ac i'r papur dros y blynyddoedd. Er iddo fyw ym Mhwlheli am y rhan helaethaf o'i oes, roedd Llanberis a dalgylch yr hen Ysgol Brynrefail yn agos iawn i'w galon.

ROBERTS, Huw Ronald (1922-2010)

Roedd yn un o deulu'r Helfa Fawr, Cwm Brwynog, Llanberis (gweler mwy am y teulu yn *Pobol Tu Ucha'r Giat* gan Rol Williams). Fe'i ganed yn 1922 yn Llanberis, ond treuliodd y rhan helaethaf o'i oes ym Mhwlheli. Bu'n athro gwyddoniaeth yn Ysgol Botwnnog am dros 30 mlynedd nes ei ymddeoliad yn 1978. Gwnaeth gyfraniad sylweddol ac arwyddocaol i fyd y ddrama yng Nghymru.

Ysgrifennodd dair drama lwyfan: *Hywel A* (1979), *Pont Robat* (1981) a *Plas Dafydd* (1988). Bu'n gysylltiedig â'r ddrama sebon *Pobol y Cwm* o'r cychwyn cyntaf a gweithiodd fel golygydd sgript ac awdur ar y



gyfres. Bu'n aelod o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas Theatr Cymru ers ei sefydlu yn 1967, ac yna'n gadeirydd a llywydd arni. Aelod o Banel Drama'r Eisteddfod Genedlaethol ac o fyrddau rheoli Cwmni Theatr Cymru a Theatr Gwynedd. Gwasanaethodd ar Bwyllgorau Drama Cyngor Celfyddydau Cymru a Chymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru. Bu'n actio a chyfarwyddo gyda Chwmni Drama Glan y Môr, Pwllheli, yn Llywydd Cylch Llenyddol Llŷn a Llywydd Clwb Golff Pwllheli. Roedd hefyd yn arbenigwr ar hel achau, a bu'n dilyn trywydd yr enw Jeffrey am flynyddoedd gan chwilo'ta'n ddiwyd drwy gofrestrau a dogfennau. Bu farw yn Ysbyty Bryn Beryl, Pwllheli ar 25 Mehefin 2010.

Efallai nad yw'r ail enw mor gyfarwydd. Mae'n debyg fod gweinidogion, clerigwyr, beirdd, llenorion ac athrawon yn cael mwy o sylw fel 'enwogion' nac unigolion a fentrodd i fyd gwyddoniaeth. Ond gwnaeth Tom Evelyn Parry gyfraniad sylweddol ym myd meddygaeth, a pharhaodd i wneud hynny hyd ddiwedd ei oes. Er iddo ymddeol yn swyddogol, roedd yn parhau i weithio hyd y diwedd.

PARRY, Tom Evelyn (1916-2010)

Fe'i ganed yn Llanrug yn 1916, a mynychodd Ysgol Glanmoelyn ac Ysgol Brynrefail. Graddiodd yn feddyg, a gwnaeth waith arloesol ym maes DNA, yn enwedig mewn achosion o gancr a leukaemia. Yn 91 oed cyhoeddodd bapur gwreiddiol allweddol yn y cylchgrawn *Leukaemia Research* (Awst 2007)



Dathlu Gwyl Fai

ac un arall a dderbyniwyd i'w draddodi mewn Cynhadledd Ryngwladol yn Ysbyty Great Ormond Street, Llundain (Ebrill 2008), sef 'The causes of transitions in the DNA molecule in leukaemia and cancer.' Cyhoeddodd hefyd 'Mutagenic mechanism in leukaemia and cancer: a new concept.' (*Leukaemia Research* 2006).

Ysgrifennodd Glyn O. Phillips erthygl ar ei gyfraniad i feddygaeth yn Y Goleuad (15 Awst 2008) sef 'Dau arloeswr DNA o Sir Gaernarfon'. Bu farw yn dilyn cystudd byr ar 25 Mehefin 2010 yn Ysbyty Llandochau, Caerdydd. Roedd yn byw ar ddiwedd ei oes yn Ninas Powys.

R.S. Williams

Un arall o blant Llanrug sydd angen ei gofnodi yw R.S. Williams. Ar hyn o bryd does gen i ddim enwau bedydd iddo! Fe'i ganed tua 1868, ond mae'n ymddangos i'r teulu symud i Fangor, oherwydd yn Ysgol Friars y derbyniodd ei addysg uwchradd. Bu'n briod deirgwaith, a ganed ei blentyn cyntaf ym Melbourne. Dychwelodd i'r wlad hon a bu'n gweithio fel clerc yn swyddfeydd rheilffordd yr LMS ym Mangor. Ym Mangor y bu'n byw weddill ei oes; yn aelod gweithgar gyda'r Rhyddfrydwyr ac yn ddiagon a thrysorydd capel Ebenezer.

Yn 1936 yn Eisteddfod Genedlaethol Abergwaun,

enillodd ar greu mynegai i gylchgrawn *Y Genninen* (1833-1928) dan feirniadaeth Cynan. Pum gini oedd y wobwr, ond roedd Cynan yn canmol gwaith trwyadl R.S. Williams ac yn argymhell gwobrwyo bedair gwaith gwerth y wobwr! Cytunodd yr Orsedd i gyfrannu pum gini arall, a thalodd D.O. Evans, Aelod Seneddol Ceredigion, ddeg gini er mwyn cyrraedd y cyfanswm. Nid oedd R.S. yn bresennol i dderbyn ei wobwr, ond fe'i cynrychiolwyd gan Dr Tom Richards, Llyfrgellydd Coleg Prifysgol Bangor. Dywedodd fod manylder y gwaith ymchwil a wnaeth wedi effeithio ar iechyd R.S. Yn ei angladd fis Mai 1937 roedd pedwar o weinidogion yn cymryd rhan yn ogystal â'r Dr Tom Richards a Pentir Williams, Clerc Cyngor Tref Bangor a chyd ddisgybl gyda R.S. yn Ysgol Friars. Mae peth o'i waith ar gadw yn Archifdy'r Brifysgol, Bangor. Fe fyddwn yn ddiolchgar iawn o unrhyw wybodaeth bellach am R.S. Williams.

Lluniau Llanrug

Adroddais yn y rhifyn diwethaf fod hen lluniau o Lanrug wedi eu benthyca. Erbyn hyn rwyf wedi medru casglu enwau i rai o'r bobl sy'n ymddangos yn y lluniau, ond mae eraill yn parhau'n ddienw! Anodd hefyd

Parhad ar dudalen 9

H.E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys

LLANBERIS

Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo
★ Olew Gwres Canolog
i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

• Priodasau • Dathliadau

• Achlysuron Arbennig • Cynadleddau

• Pwyllgorau • Bwydlen Bar

THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS

with droed yr Wyddfa

Ffôn: 0844 411 9003

yw gwybod beth yn union yw'r achlysur na'r lleoliad mewn ambell lun.

Mae'r llun cyntaf yn dangos dathlu Gŵyl Fai yn y cae wrth ochr y Rheithordy (Corlan y Rhos erbyn heddiw). Does dim enw na dyddiad i'r llun.

Mae'r ail lun yn dangos y disgyblion yn Ysgol Ganol Llanrug oedd yn cael gwersi ffidil. Pwy tybed yw'r athrawon yng nghanol y llun?

Yr ail ferch o'r chwith yn y rhes flaen yw Olwen Williams, Cefn Llwyd gynt, a chredir fod Enid Roberts (merch y prifathro ar y pryd) a'r diweddar Milwyn Parry-Jones, Groeslon Marc, hefyd ymhlith y disgyblion.

Mae'n bosibl mai yn Festri Capel Mawr y tynnwyd y llun hwn, ond beth yw'r achlysur?



Y merched



Disgyblion Ysgol Ganol Llanrug

Pam fod dwy o'r merched yn gwisgo'r wisg Gymreig?

Cafwyd rhai enwau. Rhes gefn Griffith Griffiths, Ddôl Helyg, (1af ar y chwith), Humphrey Owen, Isallt (4ydd) a D.S. Williams (6ed). Ail Res: Myfanwy o'r Bryn (1af). Trydydd rhes: Mrs McKinnon (7fed), Mrs Davies, Plastirion Terrace (12fed). Rhes flaen: Jennie Hughes (5ed) Mrs D.S. Williams (10fed).

Mae'r llun olaf yn dangos criw mawr o ferched, eto o bosibl yn Festri Capel Mawr, ond beth yw'r achlysur? Dyma'r enwau a gafwyd hyd yn hyn:

Rhes Gefn (chwith i'r dde): Megan Williams, Gweledfa, Miss Hughes, Bryn Moelyn, Mrs Parry, Regent House, Miss

Annie Baines Griffith, London House, ? Mrs Jones, Y Fron, ? Megan Hughes, Siop Bont, Meinir Thomas, Rhianfa, Jessie a Mary McKinnon, Plastirion, ? Myfi Davies, ? Mrs Jones, Rhos Rug, Mrs Owen, Rhos Rug, Beryl Thomas, Mrs Lewis, Madryn, ???

Ail res: Mrs Lewis, Talysarn, Crawia, ? Mrs Morgan Jones, Bronallt, Mrs Storer, Bodwyn, ? Mrs Williams, Bryn Llan, Mrs McKinnon, Plastirion, ? Mrs Pritchard, Pensarn, Mrs Jennie May Pritchard, Bron Eryri, Mrs Lily Clarke, Bryn Eryr, Mrs Sally Thomas, Bron Eryri, Mrs Bessie Jones, Panddy, Miss Williams, Ty'n Winllan, ??? Mrs Pritchard, Bryn Gwenallt, ? Trydydd Rhes: Mrs Jones, Bryn Coch Terrace, Mrs Pritchard, Bron Eryri, Mrs Evans (clocsiwr), Miss Parry, Bod Anna, Miss Polly Morris, Gwydryn newydd, Miss Williams, Glasgoed, Mrs Williams, Llys Meirion, ?? Mrs Thomas (mam Beryl fu'n cadw'r post), ?? Mrs Owen, Llain Delyn.

Rhes flaen: ? Janet Griffith, Lily Aubrey, Venice, ??????

Dyna'r sialens y mis hwn felly: rhowch enwau i'r dienw yn y lluniau uchod, neu cywirwch unrhyw gamgymeriad.

Pwll Morwyn

Daeth cais diweddar yn holi am yr enw hwn ar bwll yn afon Arddu uwchben y Ceunant Mawr yn Llanberis. Os oes gan unrhyw un wybodaeth ynglŷn â pham y cafodd yr enw hwn, yna cysylltwch. Un awgrym yw fod morwyn Cae Esgob wedi boddi yno flynyddoedd yn ôl. Tybed?

Gyda'r hydref ar ein gwarthaf, a'r dydd yn byrhau, bydd mwy o amser i chwilita a chrymowta am hanesion.

Cofiwch anfon unrhyw gyfraniad neu ymholiad i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn: 01286 673515).



Pam bod dwy o'r merched yn gwisgo'r Wisg Gymreig?

AR WERTH 'Shoprider Capri Mobility Scooter'

- Cyflwr ardderchog • Dyluniad ysgafn a hawdd ei gario mewn car • Mae'n cynnwys batri, basged a lle i ddal ffôn. Taflen wybodaeth yn gynnwysedig.

Bargen am £200 yn unig (wedi costio £879 yn newydd).

Croeso i'w ddreifio cyn prynu.

CYSYLLTWCH Â 01286 674413 AM FWY O WYBODAETH.



O WARD ENFYS

Na, fûm i ddim ar gyfyl Glyn Ebwy. Y tro cynta' ers union hanner can mlynedd i mi fethu â mynd i'r Brifwyl. Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 1960 oedd honno.

Ond rhoswch chi, mi rydw i'n cael mwy o Eisteddfod 2010 nac a gefais o unrhyw Eisteddfod y bûm ynddi erioed. Rydw i yma yn Ward Enfys, Ysbyty Glan Clwyd, o dan driniaeth, ac mae'r staff, chwarae teg iddyn nhw, wedi sicrhau fy mod i'n cael pob llonyddwch a hwylustod i ddilyn gweithgareddau'r Brifwyl drwy gydol yr wythnos. Ydw, rydw i yng Nglyn Ebwy o fore gwyn tan nos.

Yr unig golled rwy'n gael ydi cyfarfod cyfeillion y bydda i'n arfer eu cyfarch hefo'r ystrydeb flynyddol, 'Blwyddyn Newydd Dda iti'. Gweld amryw ohonyn nhw ar y sgrin, ac yn ysu am gael sgwrs. Ysu am gael y gusan flynyddol gan ambell un hefyd! Siawns na chaf ddwy yn Wrecsam. Ychydig iawn o'r Steddfod rydw i wedi'i gael yn ystod y blynyddoedd diwetha' 'ma. Mae taflen amser yr Archdderwydd yn llawn o fore tan gyngherddau'r hwyr.

Ond pam rydw i yma yn Ward Enfys yn hytrach na bod ar y maes yng Nglyn Ebwy? Wel, yn gynnar ym mis Ebrill mi gefais y newydd drwg fod 'yr hen elyn' wedi mynnu nythu'n llechwraidd yna i. Cefais orchymyn i ganslo pob cyhoeddiad a phob gwyliau, ac roedd hyn yn golygu yr Eisteddfod Genedlaethol yn ogystal. Roedd gen i un broblem, sef Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam a'r Fro 2011, ac fe gytunwyd i mi gael dechrau ar y driniaeth chwe wythnos, wythnos yn ddiweddarach nag y dylwn, fel y gallwn sicrhau y byddai 'na Archdderwydd newydd wedi ei orseddu ar

gyfer Prifwyl Glyn Ebwy. Diolch am nerth i gyflawni gorseddu Jim Parc Nest yn Archdderwydd Cymru yn Wrecsam ar y Sadwrn cynta' o Orffennaf. Llongyfarchiadau i Jim ar lwyddiant ei Eisteddfod gynta', Bydd yr ail yn haws o lawer, Jim.

Roedd y driniaeth yma yng Nglan Clwyd am bum wythnos. Teithio yn ôl a blaen yn ddyddiol am y tair wythnos gynta', ac aros yma yn Ward Enfys am y pythefnos ola', sydd yn cynnwys yr wythnos hon, wrth gwrs - wythnos yr Eisteddfod.

Mae yna gryn feirniadu yn gyffredinol ar y Gwasanaeth Iechyd, ond fedra i ddim ond rhoi y gair gorau i'r gwasanaeth yr ydw i wedi ei gael yn ystod yr wythnosau diwetha' 'ma. O fewn mis i mi gael y newydd drwg, roedd trefniadau wedi eu gwneud i mi gael archwiliad mewn ysbytai yn Lerpwl, Manceinion, Caer (sawl tro), Ysbyty Gwynedd a Glan Clwyd. O ddod i ysbyty fel Glan Clwyd fedrwch chi ddim llai na sylweddoli cymaint sy'n dioddef o'r 'hen elyn', ac am y gofal personol a roddir i ni gan y doctoriaid a'r nyrsys.

Pan oeddwn i ar fin ymadael â'r ysbyty daeth tîm rygbi yr Ospreys ar ymweliad â'r ward a chefais sgwrs ddiddorol hefo Shane Williams, Ryan Jones a Duncan Jones. Roedd gan Shane ddiddordeb mawr yn nyletswyddau ei hyfforddwr, Robin McBryde, fel Ceidwad y Cledd. Fe gafodd y tîm groeso mawr gan y staff a'r cleifion. A bellach dwi adre' yn llawn ffydd a hyder. Ydi, mae Steddfod lwyddiannus Glyn Ebwy wedi mynd ond mi rydw i eisoes wedi sicrhau lle i aros o fewn taith offrymu Gweddî'r Orsedd i'r maes, ar gyfer Prifwyl Wrecsam. Mae dyddiadur y gaeaf yn prysur lenwi hefyd ac

rwy'n hyderus y gallaf gyflawni'r cyhoeddiadau i gyd. Ac mae tymor pêl-droed arall ar gychwyn i godi calon un.

Diolch i bawb a fu mor garedig â chysylltu â mi yn ystod yr wythnosau diwethaf, ac i'r nifer a anfonodd gyfarchion o faes y

Brifwyl. Rwy'n gwerthfawrogi hyn yn fawr. Diolch o galon.

(Croeso adre i chi, Selwyn. Ein cofion cynhesaf atoch, gan obeithio y byddwch yn cryfhau yn fuan iawn a diolch am eich holl weithgarwch a'ch ffyddlondeb i'r Eco. Gol.)

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro am fis Awst oedd: £40: (75) Alwen Roberts, 4 Caeathro Bach; £25: (18) Tim Lloyd, Ceunant Isaf; £15: (60) Peter Tweedale, 14 Erw Wen; £5: (01) Bethan Iwan, Carrog. **CYDYMDEIMLWN** â Dewi Jones, Erw Wen, ar farwolaeth ei fam yn Rhuthun.

TRWY AWYNTIAD BRENHINOL. Roedd ei dad o wedi cael peint (am ddim) yn y Goron Fach yng Nghaernarfon. Felly peth naturiol oedd gweld ei fab o, William, yn cerdded o Felin Fach i Fryn Gwna er mwyn cael peint. Beth oedd y gwahaniaeth? Talodd Wil am ei beint!

BEDYDD. Ar ddydd Sul, 25 Gorffennaf, bedyddiwyd Tomos Alun Evans ac Anna Celyn Evans, plant Ceri Ann Roberts a Paul Evans, 6 Erw Wen yng Nghapel Caeathro gan y gweinidog, y Parchedig Marcus Robinson. Edrychwn ymlaen at weld y plant yn yr

Ysgol Sul cyn bo hir. **CAPEL CAEATHRO.** Cynhelir yr oedfaon a gweithgareddau eraill canlynol yn ystod mis Medi:

5 11.00: Ysgol Sul
2.00: Y Parch Marcus Wyn Robinson, Y Gweinidog. Bedydd yn ystod yr oedfa.
3.00: Cyfarfod swyddogion y Capel
12 11.00: Ysgol Sul
19 11.00: Ysgol Sul
2.00: Y Parch Harri Parri
26 11.00: Ysgol Sul
Croeso i bawb, ifanc neu hen, newydd neu yn ailymuno. **Y LLAN.** Roedd yn ddiddorol darllen yn rhifyn yr Eisteddfod o'r 'Llan', sef misolyn yr Eglwys yng Nghymru, fod y Parch Eric Roberts wedi ei benodi fel Ficer (rhan amser) i grŵp o eglwysi o amgylch Niwbwrch, Ynys Môn'. Braf wedyn oedd clywed fod Beryl ac Eric Roberts yn symud yn ôl i Erw Wen - o lle gellir gweld Niwbwrch o do y tŷ. Croeso yn ôl i'n plith!



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Caernarfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa yna ffoniwch 01286 672076 i wneud apwyntiad neu ysgrifennwch ato-

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell
Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
williamshw@parliament.uk



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk



Blodau Lieneke

Blodau Priodas
Priodferch
Lleoliad • Byrddau

Cae Rhydau Pontrug
Caernarfon LL55 2TN

Symudol 7510 511 631

Gwefan- <http://www.blomstervill.no>
E-bost- blomstervill@robin.no

YSGOL BRYNREFAIL

SESIWN 'DA LLION

'Rydych i gyd, mae'n siŵr, yn gyfarwydd gyda'r actor adnabyddus Llion Williams. Yn adnabyddus i nifer oherwydd ei rôl fel George Hughes yn y rhaglen *C'mon Midffild* tua diwedd yr 1980au a dechrau'r 1990au. Ond y mae hefyd wedi perfformio mewn o leiaf 11 o raglenni eraill i wahanol gwmnïau teledu ynghyd ac ar lwyfannau niferus yng Nghymru. Bu hefyd yn lleisio nifer o gartwnau, megis y Smyrffs yn Gymraeg ac, wrth gwrs, mae'n ddigrifwr stand up heb ei ail.

O dan nawdd Prifysgol Bangor a'r cynllun 'Anelu'n Uwch' y mae Llion yn ymweld â nifer o ysgolion uwchradd gyda'r bwriad o godi hunan ddelwedd a hunan hyder

disgyblion ac hefyd ehangu eu dyheadau. Gwneir hyn yn Ysgol Brynrefail gyda blwyddyn 7 a phob dosbarth yn ei dro yn cael y cyfle i weithio gyda Llion am awr.

Gwna Llion ddefnydd o'i gefndir cyfoethog i gynnal gweithdai drama a chanolbwyntio ar ddychymyg a'r defnydd o lais a chorff sydd, nid yn unig yn sgiliau hanfodol ar gyfer actio, ond hefyd yn sgiliau angenrheidiol ar gyfer ehangu hunan ddelwedd a hunan hyder.

A phwy a ŵyr, ar ôl blasu gwaith Llion efallai y daw actor neu actores arall i'r brig ym Mrynrefail. Ond i Llion y llwyddiant fyddai i gael pob disgybl yn anelu at gyrraedd ei botensial llawn.



HAIRSPRAY – HOGIA'R SET

Pan oeddech yn gwylio a gwrandao ar y sioe gerdd Hairspray eleni gobeithio i chi bwylio am eiliad ac ystyried y gwaith caled fu'n mynd ymlaen i greu'r setiau.

Gyda chefnogaeth Mr Peredur Williams aeth pedwar o fechgyn, sef Huw Jones, Tomos Jones, David Hanks a Michael Roberts, ymlaen â'r gwaith i greu'r setiau anferthol a welsoch ar y llwyfan. Roedd y gwaith yn gofyn am gymhwysedd o sgiliau cynllunio ac amrywiaeth o sgiliau gwaith coed.

Hogia' ni – da 'de

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

Fala Favela

'Fala' yw 'siarad' yn Bortiwgaleg, iaith gyntaf yng ngwlad Brasil, a'r Favela yw gair i ddisgrifio'r trefi sianti y mae'r bobl dlawd yn byw ynddynt. Fel rhan o'u gwaith 'dinasyddiaeth' y mae disgyblion blwyddyn 9 wedi bod yn archwilio prosiect ar fywyd yn y Favela yn ystod eu gwersi pynciol yn Daearyddiaeth a Cerdd. Y mae bywyd y bobl sy'n gorfod byw yn y Favela yn dlawd ofnadwy ac, yn ystod eu gwersi Daearyddiaeth, y mae'r disgyblion wedi bod yn astudio a chymharu'r tloedi a'r trallod y mae'r boblogaeth yn ei wynebu yn eu bywydau beunyddiol.

OND! Y mae un digwyddiad pob blwyddyn yn ysgogi ac yn

cyfoethogi bywyd y Favela ac y mae'r paratodau amdano yn parhau drwy'r flwyddyn gyfan – y Carnifal!

Mae'r Carnifal bob blwyddyn yn seiliedig ar rythmau'r samba ac, yn ystod eu gwersi Cerdd, bu blwyddyn 9 yn astudio rhythmau'r samba ac yn dysgu sut i chwarae'r rhythmau hyn ar wahanol offerynnau ac fe gafwyd perfformiad awyr agored o flaen y camerâu.

Bu Angie Roberts a Malcolm Williams o Ganolfan Addysg Byd, Prifysgol Bangor, ym Mrynrefail yn ffilmio disgyblion blwyddyn 9 yn siarad am eu gwaith a bydd DVD yn cael ei gynhyrchu ar y Favela gaiff ei rannu gyda holl ysgolion cynradd ac uwchradd Cymru.



YMWELIAD 'MANTAIS' AG YSGOL BRYNREFAIL

Ar ddydd Mercher 23ain Mehefin 2010 ymwelodd Enfys Evans, cynrychiolydd 'Mantais' ag Ysgol Brynrefail i rannu gwybodaeth gyda myfyrwyr blwyddyn 12 sydd yn wynebu eu blwyddyn olaf yn yr Ysgol ac yn cysidro eu cam nesaf i brifysgol.

Beth yw Mantais? Mantais yw'r ymgyrch sydd yn hyrwyddo addysg uwch cyfrwng Cymraeg Gymru gyfan.

Bu eu sgwrs ym Mrynrefail yn rhoi gwybodaeth i flwyddyn 12 o rai o'r cyfleoedd gyfrwng Cymraeg sydd mewn addysg uwch ac fe gafwyd esiamplau ar DVD o gyfweiliadau gyda myfyrwyr presennol, y manteision o astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a hefyd eitemau gan gyflogwyr yn sôn am bwysigrwydd sgiliau dwyieithog yn y byd gwaith.

Y mae Mantais hefyd yn noddio disgyblion, sy'n barod i ddilyn uned o waith trwy gyfrwng y Gymraeg, trwy eu hysgoloriaethau ac y mae un o'n disgyblion ym mlwyddyn 13, sef Gethin Green, eisoes wedi cael budd o'u buddsoddiad.

MYNYDDA

Wedi sicrhau, cyn gadael Brynrefail, fod pawb yn gwisgo esgidiau a dillad addas, bu dosbarthiadau yn cael eu cyfleu i fwynhau mynydda yn harddwch Eryri.

Wedi taith bws i lannau Llyn Cwellyn bu dechrau ar y daith i fyny llwybr y 'Snowdon Ranger' a gadael llyn Cwellyn ar eu gorwel pell

Parhau i ddringo nes cyrraedd Bwlch Cwm Brwynog a cherdded ar draws i Maen Du'r Arddu, sy'n lwmpyn o garreg adnabyddus, ac i waelod Gallt Moses. Yr oedd pawb yn hapus o aros am dipyn i gael diod a bwyd ysgafn cyn ail gydied yn y cerdded ac anelu at y llwybr a fyddai, yn y pen draw, yn eu tywys i lawr yn ôl i Lanberis a'r daith bws tuag at Ysgol Brynrefail a phawb wedi llwyr fwynhau eu diwrnod yn yr awyr iach.

*Cofiwch gefnogi
ein hysbysebwyrr*

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG-WELSH
LANGUAGE BOARD

Nodir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Canlyniadau Arholiadau AS

Ar ddydd Iau, 19eg Awst 2010, fe ddaeth canlyniadau arholiadau AS i Ysgol Brynrefail ac fe ddaeth pob disgybl o flwyddyn 12 i dderbyn eu graddau. Mae'r arholiad AS wedi bod yn ei le am beth amser a rhyw dy hanner ffordd rhwng T.G.A.U. a lefel A yw'r AS.

Yn gyntaf y mae'n rhoi syniad, i bob disgybl, ar ddiwedd blwyddyn 12 o'u safonau yn y pynciau y maent wedi dewis eu hastudio tuag at lefel A. Yn ogystal mae'r AS yn rhoi gwybodaeth am y pynciau y maent yn weddol llwyddiannus ynddynt a hefyd am y pynciau hynny sydd angen mwy o astudio a chaboli arnynt. Ond y mae pob marc a enillwyd yn yr arholiad AS yn cyfrif tuag at farciau'r lefel A ar ddiwedd y ddwy flynedd.

Fel y gallwch gredu bu trafod eiddgar rhwng y disgyblion a'i gilydd a thrafod hefyd gydag aelodau o staff yr ysgol.

Lefel A

Wedi hir ymaros, fe ddaeth y diwrnod o'r diwedd ac yn eu tro fe ddaeth y disgyblion, fesul un, i ddarganfod eu canlyniadau wedi dwy flynedd o waith caled. Do bu llwyddiant aruthrol a diwedd y gân yw bod pob disgybl oedd yn mynnu lle mewn prifysgol wedi llwyddo i ennill eu lle.


Dywedodd y Pennaeth Mr Eifion Jones:



'Yr wyf yn ymfalchïo yn llwyddiant y disgyblion oll ac yn falch ofnadwy bod eu gwaith caled dros y blynnyddoedd yn dangos cystal llwyddiant. Mae'n

bwysig hefyd cydnabod gwaith trylwyr staff yr ysgol sydd wedi cyfrannu'n helaeth at lwyddiant y disgyblion. Ar ran fy hun, y staff a'r Corff Llywodraethol,

carwn ddymuno'n dda i bob un disgybl yn eu gyrfaedd prifysgolion a dymuno dyfodol llwyddiannus a hapus iawn iddynt.'




Arholiadau Blwyddyn 11

Eleni ymgeisiodd 128 o ddisgyblion eu harholiadau Blwyddyn 11 mewn nifer helaeth o wahanol bynciau gyda sawl bwrdd arholi. Ar fore'r 24ain Awst 2010 daethant oll i'r Ysgol i dderbyn eu canlyniadau, rhai yn ofidus, eraill yn frwdfrydig ond yr oll wedi ymgeisio eu gorau yn ystod yr arholiadau, ac ni ellir gofyn am fwy na hynny.



Wedi'r gwenu, sgrechian ac ambell ddeigr yn yr oedd yn amlwg eto eleni bod y disgyblion i gyd wedi dod â chlod mawr iddynt eu hunain a hefyd i'r Ysgol.

Dywedodd y pennaeth, Mr Eifion Jones:

'Eto eleni rwy'n cael y cyfle i longyfarch y disgyblion oll ar eu llwyddiant yn yr arholiadau. Mae'r llwyddiant hwn yn adlewyrchiad o'r gwaith caled y mae'r disgyblion wedi ymroi yn eu gwaith cwrs ac arholiadau. Carwn hefyd



ddiolch i'r staff am eu gwaith dygn a thrylwyr gyda'r holl disgyblion. Bydd rhai disgyblion yn ail ymuno â ni yn y chweched dosbarth tra bydd eraill yn penderfynu mynychu cwrs coleg neu fyd gwaith. Ar ran fy hun, y Corff Llywodraethu a holl staff yr Ysgol, carwn ddymuno'n dda iddynt oll lle bynnag bydd y cam nesaf yn eu bywydau.'



Y CHWECHED DOSBARTH

Coeliwch neu beidio, dyma i chi luniau'r sêr fydd yn goleuo blwyddyn 13 eleni, yn astudio'n galed (!) tuag at eu harholiadau lefel A. Ym mhlith y cewri hyn y mae'r brif eneth newydd a'r prif fachgen newydd ac yn cuddio ymhlith y dorf mae dwy ddirprwy brif eneth a dau ddirprwy brif fachgen. Fe gawn wybod mwy amdanynt nes ymlaen.

Yn eu plith mae ambell gerddor, ambell bêl-droediwr, ambell gantores, ambell chwaraewr rygbi, ambell bêl-rwydwraig, ambell golffiwr, ambell neidwraig ceffylau ac ambell lyncwr hufen ia!

Rhowch nhw i gyd hefo'i gilydd a be sydd gennych chi?

Wel criw go iawn yn llawn egni, hwyl, sbri a gwaith... (gobeithio).



CRICED



Ar ddiwrnod olaf mis Mehefin, a hithau'n brynhawn hyfryd o haf, teithiodd tîm criced Ysgol Brynrefail i faes criced Mochdre, ger Bae Colwyn, i chwarae yn erbyn Ysgol Eirias yn ail rownd Cwpan Eryri ar ôl trechu Ysgol Creuddyn yn y rownd gyntaf.

Eirias enillodd y taflad a phenderfynu batio mewn gêm 20 pelawd. Er bowlio ffyrnig a maes dygn daeth y rhediadau'n gyson ac fe wnaeth eu seren, Shreyas, 67 o rediadau allan o gyfanswm o 185-5.

Cymerodd Gethin Jones a Michael Allman ddwy wiced yr un.

Yn eu saith pelawd gyntaf fe fethodd Eirias â chael yr un wiced ond ni sgoriodd Brynrefail yn gyson chwaith ond yr oedd pob batiwr yn gwneud ei orau glas dros y tîm. Ein prif sgoriwr oedd Gethin Jones gyda 16 rhediad allan o gyfanswm o 61-7. Nid colli'r gêm ddaru ni - rhedeg allan o belawdau i sgorio rhediadau oedd yr hanes !

Hogai ni - da 'de

CLWB CANT

Enillwyr diwedddara'r Clwb.

Ionawr: £35.75: Bethan Wyn Jones, Efail Newydd, Llanrug; £21.45: Owena H. Roberts, Enlli, Erw Nant, Brynrefail; £14.30: Eifion Jones, d/o Ysgol Brynrefail.

Chwefror: £35.75: Rhona

Lampard, Tŷ Gwyn, Nant Peris; £21.45: Alison Jones, 19 Dôl Afon, Cwm y Glo; £14.30: Meinir W. Griffiths, Tros y Waun, Penisarwaun.

Mawrth: £35.75: Gwenda Griffiths, Trefeddyg, Waunfawr; £21.45: D.L. Roberts, Pendinas Mawr, Penisarwaun; £14.30: Caroline

Logan, 32 Nant y Glyn, Llanrug.

Ebrill: £35.75: Mrs E.M. Owen, Hafan y Rhos, Llanrug; £21.45: D. & W. Phillips, 7 Tai Arthur, Penisarwaun; £14.30: Ffion Glyn Roberts, Erw Gain, Llanrug;

Mai: £35.75: Dr Gareth Evans, 23 Muriau Park, Caernarfon;

£21.45: Manon Gwynedd, Llys Myfyr, Bethel; £14.30: Siw Brookes, 28 Nant y Glyn, Llanrug.

Mehefin: £35.75: Valmai Owen, 2 Rhos Elan, Llanrug; £21.45: Angela Price, Talmaen, Waunfawr; £14.30: Wendy Anderson, 2 Croes y Waun, Waunfawr.

CYSTADLEUAETH FOROL YSGOLION 2010

Bu llwyddiant ysgubol i'r tîm a gynrychiolodd Ysgol Brynrefail yn y gystadleuaeth gyntaf o'i math yng Ngogledd Cymru. Cafodd y tîm ei goroni yn Brif Bencampwyr y gystadleuaeth, a chafodd ei chynnal ym Mhlas Menai ar ddydd Llun, Mehefin 21ain 2010.

Cystadleuaeth oedd hon ble roedd angen i dimau ddylunio ac adeiladu cwch bychan oedd yn cael ei phweru gan yr haul drwy

baneli solar. Cynhyrchwyd y cwch drwy ddefnyddio plastig polystyren a'r broses o ffurfio â gwactod. Daeth y tîm yn drydydd yn y ras yn erbyn cystadleuaeth ffyrnig iawn o Ysgol Caergybi, Ysgol Syr Hugh Owen ac Ysgol Ffriars. Daethant yn gyntaf yn yr adran ar gyfer gwaith tîm ac, o ganlyniad i sgorio yn uchel ym mhob adran, cawsant eu coroni yn brif bencampwyr ar gyfer 2010.



Derfel Thomas (9O), Gerwyn Jones (9S), Cai ap Ieuan (9O), Ffion Jones (9S)



YSGOL YRRU
ELIDIR
DRIVING SCHOOL

07922121226

Hyfforddwraig wedi ei chymradwyo gan yr ASG

Jacqueline Williams

Gwers Gyntaf, 2 awr am bris 1

Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun



Y SAMARIAID
(01248) 674985

Yr Wythnos Drawsgwricilaidd DYNIAETHAU

Ar ôl cyflwyniad gan Mr Harri Jones, Pennaeth yr Adran Hanes, cafwyd taith gerdded i ddisgyblion blwyddyn 8 trwy bentref Llanrug hyd Eglwys Llanfihangel yn Rhug i ddechrau ar y gwaith o chwilio am wybodaeth ar rai o'r bobl oedd wedi eu claddu yno.



Criw gyda Mr Elfyn Roberts yn sylwi ar fedd Sir Hugh Rowlands, ganed yn Llanrug ar 6ed o Fai 1828 ac yn aelod o Gatrawd Cymru (Catrawd 41) a enillodd y V.C. ar y 5ed o Dachwedd 1854 ym mwrwdr Inker Mann yn rhyfel y Crimea.



Criw o hogiau yn sylwi ar Garreg Goffa Undebwyr y Chwarel a dysgu bod y sawl a gladdwyd yno yn un o sefydlwyr Undeb Chwarel Gogledd Cymru ac yn wir yn parhau i fod yn llywydd hyd ei farw.



Ac, wrth gwrs, yn gwybod mwy na neb am yr holl hanes gwefreiddiol oedd ar gael oedd Mr Harri Jones a gafodd gynulleidfa gyson

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfnyddig drwy Warant 3420271

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

LLANRUG

Eryl Roberts. 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

MERCHED Y WAWR. Bydd y gangen yn ailgychwyn nos Fawrth, 14 Medi, yn y Sefydliad Coffa am 7.30 yr hwyr. Dan lywyddiaeth Mena Williams. Mae croeso cynnes i aelodau newydd ymaelodi gan fod rhaglen eithriadol o ddiddorol ac amrywiol wedi'i threfnu.

I agor y tymor cawn gwmni Gareth Roberts, yn enedigol o Lanrug, yn sôn am 'Gerdded Llwybrau'. Felly dowch yn llw i ddarganfod hanes cyfoethog ein plwyfi a chadw'r llwybrau'n agored i'r genhedlaeth nesaf.

MARWOLAETHAU. Ar 4ydd o Awst 2010 bu farw John Owen Hughes, Hafod y Rhos, yn ei gartref ymysg ei deulu ar ôl brwydr hir â chancre. Roedd yn 62 mlwydd oed, yn ŵr annwyl a chariadus i Elsie, tad balch ac arbennig i Eluned, Dion a Meilyr, Taid ffeind i Rhys, Aneurin, Manon ac Euros ac yn fab i Tom Owen, Brynsiecyn a'r ddiweddar Nansi, Brawd mawr i Gwyneth a brawd-yng-nghyfraith i Dafydd.

Cynhaliwyd yr angladd ar yr llog o Awst yn Eglwys St Mihangel, Llanrug.

Gwasanaethwyd gan y Parchedig Robert Townsend ac i ddilyn ym mynwent y plwyf. Y cludwyr oedd Eluned (merch), Dion a Meilyr (meibion) a Rhys (ŵyr).

Anfonwyd blodau gan y teulu yn unig ond fe dderbyniwyd rhoddion yn ddiolchgar, er cof, at Gronfa Ymchwil Cancer Cymru a Meddygfa Waunfawr. Cafwyd lluniaeth yn Caban, Brynrefail.

Dymuna'r teulu ddiolch yn arw i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a diolch arbennig i Gwynfor Jones o E.W. Pritchard, Llanberis am eu gwasanaeth trwyadl.

Hefyd bu farw Kath Jones, Bro Rhyddallt, gwedd annwyl y diweddar Pyrs, a mam arbennig i Kevin a'i hwyrion. Bydd yn golled garw i'r teulu a ffrindiau.

Cydymdeimlwn â chwi yn eich profedigaeth.

CANLYNIADAU ARHOLIAD. Erbyn hyn mae tymor newydd yr ysgolion ar fin cychwyn a'r colegau yn dilyn. Hoffem longyfarch yn arw y plant ar eu canlyniadau a dymuno'n dda iddynt yn y dyfodol.

CYDYMDEIMLAD. Yn ddiweddar, ar ôl gwaeledd hir, bu farw Owie Lewis, Deiniolen. Cydymdeimlwn â'r teulu yma yn Lanrug, roedd Owie wedi ei fagu yn Rhos Rug, yn fab i Mr a Mrs Humphrey Lewis.

Hefyd, cydymdeimlwn yn ddwys â Meirion Jones, Clwt y bont (Madryn gynt) yn ei brofedigaeth yntau o golli ei wraig, Elfrys.

DIOLCHIADAU. Dymuna Trevor, Edwin, Gwyneth a John ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad yn eu profedigaeth o golli eu mam annwyl iawn, sef Mrs Mary Christina Jones, 17 Glanmoelyn.

Hefyd fe ddymuna Megan Jones, 12 Ffordd Glanffynnon, ddiolch o waelod calon i'r teulu a ffrindiau am y llu cardia, anrhegion a'r dymuniadau da a gafodd ar achlysur dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Diolch o galon i bawb.

LLONGYFARCHIADAU hefyd i Doris a Ronnie Evans, 4 Ffordd Glanffynnon ar ddod yn Nain a Taid am y tro cynaf. Ganwyd Alys Haf ganol mis Awst - merch fach i Adrian a Bethan. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr y Clwb Cant mis Gorffennaf oedd: 1. Mrs E Jones, 4 Hafan Elan; 2. Mrs M Williams, 35 Nant y Glyn; 3. Mrs V Williams, Awelon.

PLAID CYMRU. Enillwyr y Clwb Cant am fis Gorffennaf oedd: 1. Olwen Hughes; 2. Margaret Jones.

Enillwyr mis Awst oedd: 1. John Roberts; 2. Charles Jones.

CAPEL Y RHOS

Bydd yr Ysgol Sul yn ail-ddechrau fis Medi. Mwynhaodd y plant a'u hathrawon ddiwrnod ardderchog yn y Gelli Gyffwrdd i gloi gweithgareddau'r flwyddyn.

Trefn Oedfaon mis Medi

Medi 5 - Parch. Marcus W Robinson y Gweinidog a gweinyddir y Cymun.
Medi 12 - Dr. Ioan ap Dewi
Medi 19 - Y Gweinidog
Medi 26 - Parch. W Bryn Williams

Llwyddiant Llanrug yn yr Eisteddfod Genedlaethol

LLONGYFARCHIADAU. Daeth Ffion Williams, Ty'n y Coed, yn drydydd ar ganu Unawd allan o Sioe Gerdd 19-25 oed yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Ardderchog iawn, Ffion



©Lluniau Llwyfan

Carwn hefyd longyfarch Idwal Williams, Disgwylfa, a ddaeth yn gyntaf yn y Gystadleuaeth Galw Twmpath ac i Dafydd Whiteside Thomas ar ddod yn gyntaf am ysgrifennu Pennod gyntaf llyfr Hanes Clwb neu Sefydliad. Hanes Clwb Rhedwyr Eryri ddewisodd Dafydd ac edrychwn ymlaen am weld y llyfr cyfan yn fuan. Llongyfarchiadau i chwi eich dau.

MALCOLM YN CASGLU ETO

Bob blwyddynmae Malcolm Pitts yn casglu arian tuag at Feddygfa Llanberis a Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, er cof am ei wraig Yvonne. Eleni cyflwynwyd dwy sic o £700 yr un ganddo i'r ddau sefydliad.



Phillip Foulkes

CONTRACTIWR PLASTRO

Mewnol • Allanol Drylining

Plastfyrdio Yn Ei Le

Ymgynghori Ac Amcangyfrif Am ddim



Tel. 07760393155

ebost- phillipfoulkes@hotmail.co.uk

COFIO DR. TOM



Ar Fehefin 25ain 2010, wedi gwaeldd byr, bu farw Dr Tom Evelyn Parry, Dinas Powys, Caerdydd yn 94 mlwydd oed. Ganwyd Dr Tom yn Llanrug, yn unig blentyn i David Owen a Charlotte Parry, Fedwen Villa, Llanrug. Bu ei dad farw yn 47 oed pan oedd Tom yn bump oed. Merch fferm Llwyncoed, Cwm y Glo oedd ei fam ac, wedi marwolaeth ei gŵr, fe rentiodd rhyw dair neu bedair acer o dir oddi wrth Capel Mawr Llanrug i ychwanegu at y chwe acer oedd ganddi yn barod. Roedd beudy a thŷ gwair hefo tir Capel Mawr a phrynodd ei fam bedair o wartheg a dechrau busnes bychan yn gwerthu llefrith, menyn a wyau i ychydig o deuluoedd yn y pentre.

Buont yn byw felly, yn ddigon cysurus, hyd nes roedd Tom yn ddeuddeg oed. Bryd hynny fe ail-briododd ei fam hefo Hugh Jones, Garthdorwen, Penygroes. Symudodd y teulu i fyw i Glanrhyd Isa, Llanwnda, cyn symud yn ddiweddarach i Llwyn Derwen, Glanrhyd. Parhaodd Dr. Tom a'i deulu i fwynhau treulio amser yn Llwyn Derwen hyd yn ddiweddar iawn a mynychu

oedfaon yng nghapel Glanrhyd yn rheolaidd.

Derbyniodd Dr Tom ei addysg gynnar yn Llanrug ac eilradd yn Ysgolion Brynrefail a Phenygroes ac wedyn mynd i Brifysgol Manceinion i astudio meddygaeth, gan arbenigo ym maes haematoleg. Daeth yn fyd enwog am ei arbenigedd ym maes afiechydon y gwaed a'i gyfraniad i wellhad yr 'anaemia' dinistriol. Roedd yn berson unigryw, yn parhau i gyhoeddi papurau gwyddonol a meddygol ar gyfer cylchgronau amlwg sy'n trafod achosion canser ac yntau yn ei 90au. Gedy briod, Margaret, mab Huw a'i briod Andrea, ynghyd â'u plant Hannah a William. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yng nghapel Y Crwys, Caerdydd, a'r gladdedigaeth yn dilyn ym mynwent Sant Andreas.

Dyma ddywed Dr Tom wrth ysgrifennu am ei gyfnod yn byw yn Llanrug:

* * *

'Mae gen i gof am dri achlysur yn Llanrug:

Roedd ffynnon yn un o'r caeau a charreg fawr wrth ei hochr. Byddwn yn chwarae yn aml yn y fan honno. Rhoddais naid o ben y garreg yma un bore, a phan oeddwn yn yr awyr, cyn cyrraedd y tir, i'r syniad fynd drwy fy meddwl - "rwy'n chwech fory!" Mae dros bedwar ugain mlynedd ers hynny!

Rhyw brynawn, un haf, rhuthrodd bachgen allan a'i freichiau yn chwifio yn yr awyr ac yn gweiddi nerth ei ben 'Caerdydd wedi ennill, Caerdydd wedi ennill.' Caerdydd wedi ennill beth? Yr FA Cup. Y llencyn yma gyda

llaw, Eddie Parry, 'rwy'n meddwl oedd yr unig berchen 'wireless' yn y pentre ar y pryd.

Y ddau le pwysig yn fy mywyd yn Llanrug oedd y Capel a'r ysgol. Capel Mawr Llanrug, capel Methodist. Mynychwn y capel dair gwaith bob Sul, mynd i'r Band of Hope nos Fawrth ac i'r Seiat nos Fercher. Fyddai mam ddim yn mynd i'r Ysgol Sul ond roedd yn y capel bob bore a phob nos Sul a hynny ar ôl godro pedair o wartheg cyn mynd i bob oedfa. Mynychai y seiat bob nos Fawrth hefyd. Byddai mam yn rhoi llety i'r pregethwr fyddai yn Capel Mawr am rhyw fis bob blwyddyn. Roedd hyn yn golygu yr adeg honno, gan amlaf, y byddai'r pregethwr yn dod ar Nos Sadwrn a gadael fore Llun.

Mae fy nyled yn fawr i un o'r pregethwyr yma. Pan yn blentyn 'roeddwn yn methu ynganu'r llythyren R, roeddwn yn dweud L yn lle R. Sylwodd y pregethwr ar hyn a dysgodd fi ddweud y rhigwm:

Mae gen i ddafad gorniog
Ac arni bwys o wllan
Yn pori yng nglan yr afon
Ymysg y cerrig mân.

Drwy ymarfer hwn deuthum dros y diffyg.

Yr ysgol oedd Ysgol Glanmoelyn, Llanrug. Mr Rees oedd y prifathro a Mr Hughes wedi hynny, ond yn fuan iawn agorwyd ysgol newydd yn Llanrug, ysgol sydd yn ffynnu hyd heddiw. Byddwn yn mynd gyda mam i odro'r gwartheg a mynd â llefrith i rhyw bedwar neu bump o dai cyn mynd i'r ysgol bob bore. Mawr iawn oedd y siarad yn Llanrug pan agorwyd yr ysgol newydd, bod plant yr adeg honno yn cael cymaint o fanteision addysg wrth i ysgol mor fawr agor yn y pentre.

Bûm yn Ysgol Brynrefail, oedd yn Brynrefail ar y pryd, am un tymor cyn symud i Benygroes. Fe symudwyd Ysgol Brynrefail i Lanrug rhyw ugain mlynedd yn ddiweddarach. Ar dir oedd ym meddiant fy nhad yr adeiladwyd yr ysgol newydd - tir y bûm i, yn blentyn, yn helpu gyda'r cynhaeaf gwair arno am sawl haf yn ystod fy mhientyndod. Fy ewythr, Hugh Jones a minnau werthodd y tir i adeiladu'r ysgol.

(O.N. Daeth y newydd trist am farwolaeth Mrs Margaret Parry ar Awst Sed, 2010.)

YSWIRIANT FUW

Hoffech chi hybu:



Bwyd lleol

Busnesau cefn gwlad

Economi wledig

Trwy gefnogi Yswiriant FFW?

Yswiriant car, ty neu unrhyw fusnes

Dafydd P Jones 01492 642683 Dwyrain Sir Gaernarfon

Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyd-destun cyfryngu yswiriant, o dan Rhif Cofrestru 308935

Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern

Yswiriant Cartref

Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur

Yswiriant Teithio

Cynllunio Angladd

Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

Age Concern Gwynedd a Môn
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: Eco'r Wyddfa

AGE
Concern

Os byddwch yn cysylltu a swyddfa Age Concern, byddwch yn ymwneud a chymryd rôl penodol o Age Concern Enterprises Limited (ACENT). Mae ACENT wedi ei awdurdodi a'i reoli gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) ar gyfer cyfryngiad yswiriant. Mae'r Age Concern uchod yn elusen gofrestrig.

PADARN LAKE

LLANBERIS (01286) 870260



**PRYDAU DA AR GAEL
POB DYDD**

CANOL DYDD

A GYDA'R NOS

**Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng
12.30 a 3.00 o'r gloch**

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00

Cyfleusterau- Bartion• Priodasau ac Achlysuron Arbennig

Cofiwch gefnogi ein hysbysebwy

DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)



LLONGYFARCHIADAU i Beca Medi Jones, Rhiw Goch, Clwt y Bont, ar ennill medal arian ac eail safle yn y grŵp dan 8 mewn cystadleuaeth Gymnasteg Canolfannau Hamdden Cylch Arfon ym mis Mehefin eleni.

DIOLCH. Dymuna Mrs Ann Owen (Nan), 48 Rhydfadog, ddiolch i'w theulu am y parti ar ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed. Hefyd diolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, rhoddion a galwadau ffôn. Diolch yn fawr iawn.

CASGLWYD £66.00 yn mis Mehefin at Marie Curie yn Hafod Oleu. Diolch yn fawr iawn am eich rhoddion unwaith eto.

RAS YR WYDDFA. Llongyfarchiadau i holl blant y pentref a gymrodd ran yn rasys plant Ras yr Wyddfa eleni, yn arbennig i Elliw a Leanne a ddaeth yn gyntaf yn eu grŵp oedran.

YSGOL SUL UNDEBOL EBENESER. Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn ar Fedi 5ed am

10.15 yn y festri. Croeso i aelodau hen a newydd.

CLWB PÊL-DROED LLANBABO. Eleni gwelwyd tîm oedolion yn ailsefydlu yn y pentref o dan yr enw, 'Llanbabo'. Byddant yn chwarae yn ail adran Cynghrair Caernarfon a'r Cylch ac yn chwarae ar Gae'r Bwthyn. Bydd yr hogiau, sydd i gyd yn lleol, yn falch o gefnogaeth a dymunir pob llwyddiant iddynt am y tymor i ddod.

DYMUNIADAU gorau i'r holl blant a phobl ifanc fydd yn cychwyn tymor newydd mewn ysgol neu goleg yn ystod mis Medi/Hydref. Llongyfarchiadau i bawb a dderbyniodd ganlyniadau arholiadau ysgol neu goleg gan ddymuno pob llwyddiant iddynt i'r dyfodol.

CYDYMDEIMLIR yn ddwys â nifer o deuluoedd o'r pentref a thu hwnt a brofodd profedigaeth yn ystod yr haf.

Cofiw'n yn ddiffuant at Meirion Jones, Berwyn a Bryn a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli Mrs Elfrys Jones.

Cofiw'n yn ddiffuant hefyd at Len, Catrin a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli Mrs Helen Parry.

Cofir yn ddiffuant hefyd at Dafydd a Dilys a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli Mrs Laura Evans.

Cofiw'n yn ddiffuant at Mary Lloyd Lewis a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Mr Owie Lewis.

Cofiw'n yn ddiffuant at deulu Mrs Bronwen Hughes, Llanberis, gynt o Glwt-y-Bont, yn eu profedigaeth.

DYMUNA Ellis Wyn a Margaret, 6 Ffordd Deiniol, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl anrhegion, arian, blodau a'r galwadau ffôn a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Aur yn ddiweddar. Diolch i Elwyn,

Rhian a staff Gwesty Padarn Lake am y wledd a'r croeso ac i Raymond am wneud y noson mor hwyliog. Diolch o galon i bawb.

DIOLCH. Dymuna Maureen, 32 Stryd Newydd, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau ymhell ac agos am yr holl anrhegion, arian a'r llu cardiau a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 70. Diolch o galon i bawb.

DYMUNA Len a Catrin, 1 View Terrace, ddiolch o galon i'w holl deulu, ffrindiau a chymdogion

am y cymorth a gafwyd yn eu profedigaeth o golli Helen, gwraig a mam gariadus. Diolch am y llu cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau i'r cartref a'r holl roddion hael a gafwyd tuag at Ward Cybi a Tegid, Ysbyty Gwynedd. Diolch yn arbennig i'r Parchedig John Pritchard, Gwyn ac Annette a hefyd holl staff Ward Cybi. Hefyd diolch i'r Cyfarwyddwr Angladdau, E.W. Pritchard, Llanberis, ac yn arbennig i Gwynfor Jones am y trefniadau tawel a gofalus.

UN FUNUD FACH

PWY YW PWY?

'Mae yna o leiaf dri pheth nad wyf yn debygol o'u gwneud ar fy ngwyliau: nofio; torheulo ... ac ennill ffrindiau newydd. Gallaf ddychmygu rhai ohonoch yn gwaredu at y fath ddweud, gan mai pethau felly sy'n gwneud gwyliau da i chi. Ond fedra i ddim nofio; fu gen i fawr ddim i'w ddweud erioed wrth dorheulo; a does fawr o beryg i mi wneud ffrindiau newydd, a hynny am reswm syml iawn. Mae'n rhaid i mi gyfaddef mai prin torri gair a wnaif â neb (ar wahân i'm teulu, wrth gwrs!) trwy'r gwyliau. Mor wahanol i rai o'n ffrindiau sydd wrth eu bodd yn cyfarfod â phobl newydd lle bynnag yr ânt ar eu gwyliau.

Yr haf hwn, er enghraifft, cawsom ddeg noson mewn carafan (neu mobile home i roi'r enw crand arni). Ac am naw o'r nosweithiau hynny, roedd yna deulu'n aros yn eu carafan eu hunain y tu ôl i ni. Fûm i ddim yn siarad efo nhw o gwbl, ond mi fûm yn dychmygu pwy oedden nhw a beth oedd eu hanes. A dweud y gwir, roeddwn i'n tueddu i wneud hynny efo cryn dipyn o'r bobl a welwn o gwmpas y lle. O ble deuent? Beth oedd eu gwaith? Lle'r oedden nhw'n mynd gweddill eu gwyliau? A phwy tybed oedd y teulu a gyrhaeddodd yn y camper-van anferth? Wir i chi, roedd mor fawr â'r trelars arddangos a welch ar faes yr Eisteddfod, efo stafelloedd yn ymwithio allan bob ochr, a char bach yn sownd wrth ei ben ôl. Yr unig beth a ddysgais am y dyn drws nesa oedd ei fod yn giamstar am llunau. Roedd o'n taro cadach dros y garafan bob dydd.

Doedd dim posib i mi ddysgu dim am yr un o'r bobl hyn, ac yn sicr doedd dim modd i mi ddod i'w hadnabod heb i mi o leiaf siarad efo nhw. Wnes i mo hynny, ond bodloni'n hytrach ar ddyfalu pwy oedd pwy. Mae'n beryg i ni fodloni hefyd ar ddyfalu a hel meddyliau am Dduw. Gallwn feddwl amdano,

a dychmygu sut un ydyw, ond heb fod wir eisiau gwybod llawer amdano. Mae gennym ryw fath o ddiddordeb ynddo, ond tueddwn i ddibynnu ar ein syniadau ein hunain am Dduw yn hytrach na mynd i'r drafferth o geisio dysgu amdano. Rhyfeddod pethau, cofiwch, yw bod modd i ni adnabod Duw. Ond cyn y gwnawn ni hynny (neu er mwyn gwneud hynny) rhaid dysgu pethau amdano a threulio amser yn ei gwmni. Fe ddysgwn am Dduw trwy ddarllen yr hyn a ddywed Ef amdano i hun yn Y Beibl. Ac fe dreuliwn amser yn ei gwmni wrth fyfrio dros y pethau hynny ac wrth siarad ag Ef mewn gweddi.

JOHN PRITCHARD

E-BOST NEWYDD I'R ECO!

Cyfeiriad newydd sbon i chi
ecorwyddfa@gmail.com

Gallwch anfon eich lluniau a'ch storïau yma o hyn ymlaen. Os nad oes gennych gyfrifiadur, ac am roi llun neu ddarn o ysgrifen i mewn, ewch ag o i

Gwyndaf Hughes,
Glasgoed, Ffordd
Llanberis, Llanrug

ac fe wnaiff ei sganio a'i roi yn ôl i chi'n syth.

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol

2 Stryd y Plas, Caernarfon
(01286) 672727

8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 674460

Dewch atom am gyngor ynghylch yswiriant a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol



TACLUO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu
NOSWEITHIAU 4-10

DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07565791010

ebost-juliaposhpaws@btinternet.com

Blodau
Racca

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: 870605

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHOOD O'R GALON
YW BLODAU

Hen Gloc Yn Ysbrydoli Stori



Eurgain Haf

Hen gloc teuluol a ysbrydolodd nofel ddiweddaraf yr awdures Eurgain Haf i blant. *Siencyn a'r Clociwr Cas* yw'r bedwaredd stori, a'r olaf, yng nghyfres boblogaidd Siencyn a Dan Draed a gyhoeddwyd gan Wasg y Dref Wen ac sydd wedi eu hanelu at blant rhwng 7 a 9 oed.

Mae'r gyfres - sy'n cynnwys y llyfrau *Siencyn a Dan Draed*, *Dan Draed Dan Glo*, *Siencyn a'r Sipsiwn* a *Siencyn a'r Clociwr Cas* - yn dilyn hynt a helynt trempyn hoffus a'i gi bach teircoes wrth iddyn nhw grwydro'r wlad gan gwrdd â phob math o gymeriadau lliwgar. Does gan Siencyn ddim cartref, dim pres, a chan ei fod wedi colli ei gof does ganddo ddim gorffennol chwaith. Mae'n chwilio'n ddyfal am gliwiau a fydd yn datgelu pwy ydi o ac o le mae'n dod.

Yn y stori ddiweddaraf, *Siencyn a'r Clociwr Cas*, mae'r awdures yn mynd â ni ar daith i'r Goedwig Ddu yn Yr Almaen. Dyma gartref y clociau ac mae amser yn thema amlwg iawn yn y stori.

'Erbyn y stori hon ro'n i'n meddwl fod yr amser wedi dod i ddatgelu'r holl ddirgelwch ynghylch gorffennol Siencyn ond doeddwn i ddim yn siŵr sut

i ddod a holl ddarnau jig-sô ei fywyd at ei gilydd i gwblhau'r darlun,' eglura Eurgain, sy'n wreiddiol o Benisarwaun yng Ngwynedd ond sydd bellach wedi ymgartrefu ym Mhontypridd.

'Fe ddaeth yr ysbrydoliaeth pan gawson ni hen gloc mawr teuluol yn anrheg, ond a oedd byth yn canu'r nifer iawn o weithiau! Roeddwn i am i orffennol Siencyn gael rhywbeth i wneud â chlociau ac fe es i ar wyliau i'r Goedwig Ddu i ddarganfod mwy am eu hanes. Yno mae'r stori yn mynd a Siencyn a Dan Draed hefyd ble y daw ar draws clociwr cas sy'n corddi pob math o deimladau cymysg.'

Nod yr awdures wrth ddechrau ysgrifennu'r gyfres oedd cyfrannu at addysg gymdeithasol a moesol plant sydd erbyn hyn yn rhan bwysig o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

'Yn ogystal ag adlonni, dwi'n gobeithio y bydd y straeon yma hefyd yn ysgogi trafodaethau ymhlith plant a'u hathrawon ar sut rydym yn edrych ar y rhai sydd yn ddigartref neu yn byw bywyd mewn ffordd sydd ychydig yn wahanol. Mae gan bawb eu hanes a'u gorffennol a'r hawl i gael eu trin â pharch a charedigrwydd, pwy bynnag ydyn nhw.'

Mae Eurgain hefyd yn gweithio i Achub y Plant a gwaith yr elusen gyda phlant sipsiwn a theithwyr a ysbrydolodd un o'r straeon yn y gyfres, *Siencyn a'r Sipsiwn*.

'Yn aml mae'r grŵp yma o blant yn cael eu gwahaniaethu ac yn cael eu bwlio yn yr ysgol. Maen nhw, fel Siencyn, yn byw bywyd crwydrol ac yn aml yn wynebu rhagfarn cymdeithas oherwydd bod eu ffordd o fyw a'u diwylliant yn wahanol. Ro'n i am ysgogi plant i fod eisiau

dysgu mwy am hanes difyr y sipsi.'

Yn ogystal â chyfres Siencyn a Dan Draed mae Eurgain Haf hefyd wedi cyhoeddi dwy nofel arall gyda Gwasg y Dref Wen sef *Fferm Ffion* a *Stablau Seren*. Meddai Gwilym Boore o'r Wasg:

'Mae'n bleser gennym fel Gwasg, gyhoeddi'r bedwaredd nofel yng nghyfres Siencyn, sydd wedi bod mor boblogaidd ymysg plant. Mae Eurgain Haf yn llwyddo bob tro i greu stori afaelgar, llawn cyffro ac nid yw'r nofel ddiweddaraf yma'n siomi.'

CAU CAPEL SEION LLANDDEINIOLEN

Ddydd Sul, Gorffennaf 18, wedi 192 o flynyddoedd cynhaliwyd y gwasanaeth olaf yng Nghapel Seion, Llanddeiniolen, a thrwy hynny caewyd drysau'r capel am y tro diwethaf.

Arweiniwyd y gwasanaeth gan ein gweinidog, y Parch Gwynfor Williams, Caernarfon. Yn ystod y gwasanaeth mynegwyd gair o ddiolch gan Euron Hughes (un o'r blaenoriaid). Diolchwyd am wasanaeth y Parchedig Gwynfor Williams a'r holl weinidogion ffyddlon a gweithgar a ddaeth o'i flaen. Gweinidogion megis y diweddar Barchedigion George Brewer, Tudor Davies, Erfyl Blainey, Ifor Jones, John Alun Roberts a Mr Ifan Hefin Williams. Hefyd y gweinidogion hynny sydd yn parhau i ledaenu'r Gair fel y Parchedigion Patrick Slattery, Philip Barnett a'r Parchedig Arglwydd Roger Roberts.

Yn ogystal, mynegwyd balchder o'r meibion a'r merched da sydd wedi gadael Seion a gwneud eu marc yn y byd mewn nifer o feysydd gwahanol.

Roedd y Capel wedi cael dau gartref, yr hen gapel a gaewyd ym 1989, oherwydd fod y nenfwd wedi disgyn yn dilyn storm, a'r festri a ail agorodd ar ei newydd wedd fel capel yn 1992. Yr oedd y ddau adeilad yn dal atgofion

melys megis priodasau, bedydd a derbyn aelodau newydd, ac hefyd wedi cynnal gwasanaethau cynhebrwng.

I goffau'r capel cynhyrchwyd plât (gan Gwmni Crochenwaith Felingwm) i'n hatgoffa o'r adeiladau a oedd yn rhan ganolog o bentref Seion am bron i ddau gan mlynedd. (Mae gan y cwmni nifer fechan o'r platiau ar gael ac os hoffai rhywun archebu un, dylid cysylltu â'r cwmni yn uniongyrchol, rhif ffôn 01267 290489 neu wefan www.felingwmpottery.co.uk)

Rhaid cofio mai nid adeilad yw capel neu eglwys - ond cymdeithas. Fel mae drws un adeilad yn cau dylid cofio fod y gymdeithas yn parhau. Y mae hi'n fwriad pendant gan yr aelodau i ymuno â chapeli eraill yn y fro.

Nid oedd neb am weld, neu eisiau i'r capel gau, ac yn wir roedd yna ambell ddeigryn ar ddiwedd y gwasanaeth. Mynegwyd yn hytrach nad ysgwyd pen a phatro, 'mae'r byd wedi mynd...' neu 'be ddaw ohoni?' y dylid ei wneud, ond yn hytrach edrych ymlaen at yfory a cheisio yfory gwell.

Atgoffwyd y gynulleidfa o hen ddywedriad Tsieinaidd, 'Do not curse the darkness - light a candle instead.'



Gwasanaeth Gwres a Plymio



Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones • Tyn y Maes • Cwm y Glo LL55 4DH
Tel. (01286) 872225 Mobile- 07798 746718



J.M. JONES a'i Feibion LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Darllenwch a Mwynhewch!

Deilen ar yr Afon Gan Sarah Kelly

Ei hanes difyr yn tyfu i fyny ar y fferm gartref yn Llanddeiniolen, ac yn mynychu ysgolion Deiniolen a Brynrefail yn nhri a phedwardegau'r ganrif ddiwethaf.

Dyfarniad y Cyngor Llyfrau-

Mae'r dweud yn swynol a di-lol, a chyffyrddiad o hiwmor weithiau yn ysgafnhau'r disgrifiadau, yr atgofion a'r cameos hudolus.

YN EICH SIOP LYFRAU PRIS
CYMRAEG YN AWR £8.95

Cyh.: "Gwasg y Bwthyn" Caernarfon

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

YR YSGOL GYMUNED. Croeso cynnes i'r newydd ddyfodiaid gan obeithio y byddant yn setlo'n fuan. Dymunir pob lwc i'r rhai sy'n cychwyn eu gyrfa yn Ysgol Brynrefail.

GWELLHAD. Anfonir y dymuniadau gorau am wellhad buan i bawb sydd wedi bod yn sâl dros yr haf gwlyb yma. Anfonir cofion arbennig at Dilys Williams, Llys y Gwynt ac i Selwyn Griffith, Bryn Eglwys, wedi eu triniaethau yn yr ysbyty. Da deall fod Glenda Lamb, Bryn Eglwys, wedi gwella wedi triniaeth yn yr ysbyty.

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Dymuna Cangen Caernarfon o Sefydliad y Galon ddiolch i Elizabeth Jones ac Ann Ifans am gynorthwyo gyda'r casglu. Dymunir diolch i bawb a gyfrannodd mor hael. Casglwyd y swm sylweddol o £167.61. Diolch o galon.

GENEDIGAETH. Ar Sadwrn y Carnifal ganwyd Lois Eiry, merch fach i Emyr a Katy Williams, chwaer fach i Ioan, Enlli a Gethin ac wyres fach arall i nain a taid, Eiriona a Ieuan. Pob bendith i chwi fel teulu.

PRIODAS. Pob bendith i Lois, merch Carolyn a Dafydd, Pendinas Mawr ar ei phriodas â Dafydd Gwyn, ar 17 Gorffennaf. Bu'r gwasanaeth Priodas a'r wledd yn Nant Gwrtheyrn. Y mae Lois a Dafydd wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch.

PROFEDIGAETH. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Bryn a Nia, Tan y Coed, a'r teulu oll yn eu colled enfawr o golli mam Bryn, mam yng nghyfraith a nain annwyl, sef Elfrys Jones o Glwt y Bont.

Estynnir ein cydymdeimlad dyfnaf â Dic a Myfanwy Parry,

Tawelfa, a'r teulu oll o golli mam Dic, mam yng nghyfraith a nain a hen nain annwyl a gofalus.

Anfonir ein cydymdeimlad llwyrfa hefyd i Delyth Williams, Penger, Kate Rosser, 5 Llys y Gwynt, Dafydd Price, Cwm y Glo a'r teulu oll o golli eu brawd hynaf, Deiniol Wyn, cyn Dditectif Brif Arolygydd gyda Heddlu West Midlands.

Brawychwyd pawb yn y pentref o glywed am farwolaeth sydyn ond tawel wedi cystudd hir Nansi Jones, Meillionydd. Priod hoff y diweddar Leslie, mam gariadus Anwen a Dylan, mam yng nghyfraith Aled a nain hynod o arbennig Iolo, Dafydd, Gwawr a Meinir, chwaer amhrisiadwy Bessie a modryb hoff. Bu'r dyrfa enfawr yn yr angladd yng nghapel Bosra, ble bu'n organydd ffyddlon am flynyddoedd, a'r Amlosgfa lawn ym Mangor yn dysteb o'i phoblogrwydd a'i chyfeillgarwch. Derbynied y teulu ein cydymdeimlad dyfnaf. PRIODAS AUR.

Llongyfarchiadau mawr i Eurwyn a Shirley Jones, Camelot, ar ddathlu eu Priodas Aur ar Awst 1af.

ARHOLIADAU. Dymunir llongyfarch pawb sydd wedi sefyll yr amrywiol arholiadau a derbyn canlyniadau haeddiannol wedi'r llafur caled. Pob dymuniad da yn y chweched, yn y coleg neu yn cychwyn mewn swydd newydd. Rydym yn hynod o falch o'ch llwyddiannau.

LLONGYFARCHIADAU i Dilwyn Green ar ennill cymaint o wobrau yn Sioe Môn gyda'i adar arbennig.

Llongyfarchiadau hefyd i Anest Bryn a Hannah Rowlands ar ennill y Tŷrydedd safle yn y gystadleuaeth Grŵp Stepio yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac i Lois Eifion ar ennill yr ail safle gyda Thriawd Cerdd Dant

Neuadd JMJ Prifysgol Bangor. Fe fwynhaodd pawb ddetholiad Côr y Brythoniaid dan faton John Eifion a bu'r ymateb yn y Pafiliwn yn gymeradwy iawn. Yn yr un modd fe gafwyd datganiadau hyfryd gan Gôr y Traeth dan arweiniad Annette Bryn Parri a braf oedd gweld cymaint o'r gogledd yn cefnogi'r Eisteddfod lwyddiannus yn Mlaenau Gwent.

PWYLLGOR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD. Bu'r ymateb i'r llythyrau nawdd yn galonogol iawn hyd yma. Targed Brynrefail a Phenisarwaun yw £5,000 ac rydym bellach hanner ffordd i'r targed. I'r rhai ohonoch sy'n dymuno cyfrannu bydd cyfraniad o unrhyw swm yn dderbyniol. Gellir rhoi eich cyfraniad i'r Trysorydd, Elizabeth Jones, 17 Bryn Tirion (Ffôn: 872421) neu'r Is-Drysorydd, Carys Williams, Meini Gleision, Brynrefail (871754) neu unrhyw un o'r swyddogion neu aelod o'r Pwyllgor a enwir ar y ffurflen. Bydd yr aelod o'r Pwyllgor yn fwy na bodlon i alw heibio os dymunwch. Diolch o galon am eich cydweithrediad.

PWYLLGOR NEUADD GYMUNED.

Tynnwyd Clwb Awst a'r enillwyr lwcus oedd: Ifan Griffiths, 6 Tai Arthur ac Anwen Huws, Carmel.

Dymuna aelodau'r Pwyllgor gydymdeimlo'n ddwys â Myfanwy a Dic Parry a Delyth a'r teulu yn eu profedigaeth. Ein cydymdeimlad llwyrfa hefyd ag Anwen a Dylan, Meillionydd o golli mam annwyl, Nansi, un a fu'n ffyddlon i'r Clwb Cant o'r cychwyn.

YSGOL SUL BOSRA. Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn fore Sul, 5ed Medi am 10 y bore. Croeso cynnes i aelodau newydd.

CLWB YR HENOED. Pêl Bonws Loteri. Enillydd mis Mehefin oedd T Elis Jones, 46 Stad Tŷ Croes, Llanfairpwll, ac enillydd Gorffennaf oedd Mrs

Nansi Evans, 26 Bryn Tirion. Llongyfarchiadau.

TRIP. Mae bws wedi'i drefnu i fynd i Tweedmill, Llanellwy ar Sadwrn, 4ydd Medi i gychwyn o flaen yr ysgol Gymuned am 10.30 y bore ac yn ôl am 4.00 o'r gloch. Am ddim i bensiynwyr Penisarwaun a £5 i bawb arall. Croeso cynnes i bawb. Enwau i Mrs Janet Ash (871265) os gwelwch yn dda.

CADWR LOLIPOP. Dyna fu hanes Anti Jean ac Yncl Wil ar ddiwedd tymor yr haf ar ôl sawl blwyddyn o weithio drwy bob tywydd i sicrhau fod y plant yn cael eu croesi'n ddiogel ar ddiwedd y pnawn. Cyflwynwyd rhoddion iddynt fel gwerthfawrogiad yr ysgol gan ddymuno'r gorau iddynt i'r dyfodol. Diolch Anti Jean ac Yncl Wil.

PLYGUR ECO. Gair caredig i'ch atgoffa mai Penisarwaun fydd yn plygu'r Eco ar nos Iau, 30 Medi yn Neuadd yr Eglwys o 5.00 o'r gloch ymlaen. Dyddiad i'r dyddiadur, os gwelwch yn dda.



Anti Jean ac Yncl Wil yn trosglwyddo'r lolipop.

SMALA

www.smala.net

Gwefan syml,
ddwyieithog,
o safon
am **£200!**



01286 660 364
07887 654 251

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTIÖN • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN

AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol

* Partiön rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYD CIG ar 675190 / 673188

Ffôn symudol: 07798 718188

Gwefan: www.ydyncig.co.uk

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN


Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL



GWYNANT PIERCE

Cynrychion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Llongyfarchiadau i Euronwy Roberts, 8 Trem Eilian, ar ddathlu ei phen blwydd yn 80 oed yn ddiweddar. Dymuna Euronwy diolch yn fawr i'w theulu a'i ffrindiau am y llu o gardiau ac anrhegion dderbyniodd ar yr achlysur.

COFION. Anfonwn ein cofion at un o ddosbarthwyr ffyddlon yr Eco yn y pentref. Pob dymuniad da am adferiad buan i Megan Jones, Greuor Villa, sydd wedi treulio cyfnodau yn yn Ysbyty Gwynedd a Glan Clwyd yn ddiweddar.

LLWYDDIANT. Mae aml i aelwyd yn y pentref yn ymhyfrydu yn llwyddiant Huw Aeron o Gaerdydd yn ei gampwaith yn ennill y Ruban Glas (Gwobr Goffa David Ellis) i gantorion dros 25ain oed yn Eisteddfod Genedlaethol Glyn Ebwy.

Ei hen daid a'i nain oedd y diweddar John ac Annie Jones yn 1 Tai Orwig, ac yno y deuai ei fam, Heulwen, a'i chwiorydd gyda'u rhieni pan yn blant am wyliau yn ystod misoedd yr haf, fel y cofia nifer ohonom yn dda. Rydym yn trysori ei gysylltiad â Brynrefail ac rwy'n siŵr fod Jennie Angharad Roberts, Ffrwd Madog, Bethan ac Amy, Glandŵr a Dilys, Min y Don, yn falch iawn o'i lwyddiant arbennig.

YREGLWYS BRESBYTERAIDD Y **GYMDEITHAS.** Yng nghyfarfod Gorffennaf o'r Gymdeithas y siaradwr gwadd oedd un o'r aelodau, Dafydd G. Ellis, Gweledfa. Er yn hanu o bentref Dolwyddelan mae erbyn hyn wedi treulio cyfran helaeth o'i ddyddiau yma ym Mrynrefail.

Cyflwynwyd ef i'r aelodau gan Lowri Roberts Williams drwy gysylltu Dolwyddelan a Brynrefail ag enwogion y pentrefi, gyda Dafydd yn trigo yng nghartref un ohonynt ers dros ddeng mlynedd ar hugain. Ar y testun "Trocon yr Yrfa" cafwyd adroddiad cyffrous a diffuant o hanes ei fywyd a'i amrywiol alwedigaethau a'i gyfraniad sylweddol i gymdeithas. Mawr oedd diolch pawb ar y terfyn.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Medi 16eg, yng nghwmni Eluned Davies o'r Caban. Bu sefydlu'r Caban yn gaffaeliad mawr i ni fel pentref. Mae gwahoddiad cynnes iawn i bawb ymuno yn y cyfarfod hwn pryd y bydd Eluned yn sôn am ddatblygiad y ganolfan dan y testun 'Yma o Hyd'.

OEDFAON MEDI

- 5: am 5.30, Parch Marcus Robinson, Bethel
- 12: am 2.00, Parch Gwenda Richards, Caernarfon
- 19: am 5.30, Mr Oswyn Evans, Penmaenmawr
- 26: am 5.30, Parch Eric Jones, Bangor

PWYLLGOR APÊL EISTEDDOD YR URDD ERYRI. Bu'r ymateb i'r llythyrau nawdd yn galonogol iawn hyd yma. Targed Brynrefail a Phenisarwaun yw £5,000. os oes rhai ohonoch yn awyddus i gyfrannu gellir rhoi eich cyfraniad i'r Is-Drysorydd, Carys Williams, Meini Gleision (Ffôn 01286 871754) neu aelod o'r Pwyllgor a enwir ar y ffurflen. Bydd yr aelod yn fwy na pharod i alw heibio os dymunwch. Diolch am eich cydweithrediad.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

LLONGYFARCHIADAU i Les a Hilda Orritt, Moranedd, Cwm y Glo ar ddathlu eu Priodas Aur ar 3 Medi. Dymuniadau da gan Jude a Glyn, Nige a Jude, Cynth a Paul, a chariad mawr i Nain a Taid oddi wrth Daniel a Dafydd.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Dafydd Price, Tan-y-Graig, yn ei brofedigaeth o golli ei frawd hynaf.

Hefyd gyda Mr Colin Rowlands a'r plant, Elwyn a Ruth, a'u teuluoedd o Deganwy yn eu profedigaeth lem o golli priod, mam a nain, sef mrs Catherine Rowlands, merch i'r diweddar mr a Mrs Peris Roberts, Pen'rallt.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Margaret Williams (Anti Margaret), Bryn, ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 60 oed ar 1 Medi.

LLONGYFARCHIADAU i Siôn Arfon, 16 Dôl Afon, ar ei lwyddaint yn ei arholiadau

Lefel A a phob dymuniad da iddo ym Mhrifysgol Bangor ym mis Medi.

YMDDEOLIAD. Wedi tros bedair ar bymtheg o flynyddoedd fel Warden y Rheithor, penderfynodd Mrs Marjorie Roberts ymddeol o'r gwaith. Yn ddarwybod i Marjorie, ar 25 Mehefin, daeth nifer o aelodau Eglwys Sant Gabriel ac Eglwys Sant Mihangel Llanrug ynghyd i Westy Llyn Padarn, Llanberis i ddathlu, i dalu diolch ac i ddangos eu gwerthfawrogiad o'i gwaith clodwiw fel Warden i'r Rheithor, Trysorydd yr Eglwys, yn lanhau'r yn gofalu am y raffl fawr flynyddol a phob math o waith o fewn yr Eglwys. Roedd bob amser yn barod i gynrychioli'r Eglwys mewn unrhyw ffordd neu achlysur.

Cyflwynodd y Parch Robert Townsend dorch o flodau iddi gan ddiolch iddi am ei gwaith a dymuno'n dda iddi ar ei hymddeoliad.



Mrs Marjorie Roberts

CARNIFAL CWM-Y-GLO 1950



(O'r chwith): Elfed Hughes, John Roll, David Simon, Mair Williams, Idwal Williams (yn y pram), Dennis Jones Post, Mrs Watkins, Nellie Wyn, Lissie Davies a Dilys Williams.

(Cefn) Gwilym Evans, William Jones, Mr Watkins. Diolch i Mrs Mair Williams, Elidir View am y llun.

ECO'R WYDDFA

Hoffech chi hysbysebu eich cwmni neu ddigwyddiad yn yr Eco? Cysylltwch ag:
Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pñawn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

CLWB BRO BETHEL. Bydd cyfarfod cyntaf o'r Clwb brynhawn Mawrth, Medi 7fed, am 2.00 o'r gloch yn Festri Bethel. Y siaradwr gwadd fydd Russell Jones, Rhosgadfan, felly dewch draw i glywed beth sydd ganddo i ddweud, a chael cymdeithasu wedyn dros baned. Croeso i unrhyw un ymuno â'r Clwb.

PWYLLGOR EISTEDDFOD BETHEL. Cynhelir NOSON GOFFI yn Neuadd Goffa Bethel nos Wener, 10fed o Fedi 2010, am 6:30 o'r gloch. Bydd aelodau'r pwyllgor yn ddiolchgar o unrhyw gyfraniad tuag at y noson; bydd stondinau cacen, tombola a raffl. Yn ychwanegol, bydd cyfle i blant a ieuenctid roi eu henwau i lawr os am ymuno â phartion canu, llefaru a cherdd dant (cynradd neu uwchradd). Dyddiad cyfarfod nesaf y pwyllgor yw nos Lun y 6ed o Fedi am 7:00yh yn festri Capel Cysegr.

PWYLLGOR APÊL EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, BETHEL SEION A LLANDDEINIOLLEN 2012. Bydd y cyfarfod nesaf yn Festri Capel Cysegr ar Fedi 20fed am 7 o'r gloch. **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2010.**

Braf yw cael cydnabod llwyddiant pedwar o feibion ifanc y pentref yng Nglyn Ebwy eleni. Daeth tair gwobr gyntaf i ran Dewi Griffiths, a hynny fel arweinydd y Band buddugol yn Nosbarth 4 y Bandiau Pres, sef Band Melingriffith 2, fel prif cornetydd Band Tredegar ac fel aelod o'r Grŵp Offerynnol 'Pres Poded'.

Yna yn yr Adran Lleisiol, Huw Foulkes a'i gôr ieuenctid o Aelwyd y Waun Ddyfal a gipiodd y wobr gyntaf a bu i Huw hefyd ennill y drydydd.

wobr mewn dwy gystadleuaeth Cerdd Dant.

Gyda chymorth Dewi Foulkes yn cyfeilio fe ddaeth Ffion Angharad o Lanrug yn drydydd. yn canu cân o Sioe Gerdd.

Yn yr Adran Llefaru, Carwyn John ddaeth yn drydydd. yng nghystadleuaeth Gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn. Llongyfarchiadau mawr i'r pedwar

PRIODAS ARIAN. Llongyfarchiadau arbennig i Yncl Geraint ac Anti Ann, 3 Stad y Rhos, Bethel, ar ddathlu eu Priodas Arian ar Fedi 7fed 2010. Cariad mawr oddi wrth Einir, Aled, Siôn, Richard a Catrin

LLONGYFARCHIADAU mawr a dymuniadau gorau i holl ieuenctid y pentref sydd yn wynebu newid byd ym mis Medi, rhai yn mynd yn ol i'r ysgol i barhau gyda'u astudio, eraill yn mynd ymlaen i goleg ac eraill i waith. Dymuniadau gorau iddynt i gyd.

PRIODAS. Dydd Sadwrn, 17 Gorffennaf, yng Nghapel Cysegr, priodwyd Eurig Garmon Druce, Tan-y-Cae gynt, a Llinos Haf Larsen, o Gaernarfon, gan y Parch Marcus Wyn Robinson.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r ddau ar gyfer y dyfodol yn eu cartref yn Heol yr Orsaf, Llanberis.

DIOLCH. Dymuna Eurig a Llinos Druce ddiolch yn fawr iawn i'w teuluoedd a ffrindiau am yr anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas. Diolch arbennig i'r Parch Marcus Wyn Robinson am wasanaeth priodas annwyl a bendithiol, i Manon Gwynedd am ei gwaith wrth yr organ, i Mrs Margaret Williams, Tŷ Capel, a swyddogion capel y Cysegr ac i Mrs Edwina Morris am y

trefniadau blodau bendigedig yn y capel.

Gwnaethoch ddiwrnod ein priodas yn unigryw a chofiadwy. Diolch o waelod calon i chwi i gyd.

MERCHED Y WAWR. Nos Fercher, 8 Medi, yn festri Capel Cysegr am 7 o'r gloch, bydd noson agoriadol tymor newydd y gangen.

Yr ydym yn edrych ymlaen i groesawu a chael gwledd o ganu dan ofal Robat Arwyn, gyda lluniaeth ysgafn wedi ei drefnu gan y pwyllgor i ddilyn. Noddir y noson gan 'Noson Allan Fach' CCC.

Dalier sylw fod y noson yn cychwyn am 7 o'r gloch yn

brydlon er mwyn hwyluso gwaith ymaelodi a gweinyddol. Edrychwn ymlaen i groesawu ein haelodau yn ôl atom am dymor hapus arall.

Yr ydym fel cangen yn estyn gwahoddiad arbennig i aelodau newydd. Yr ydym yn gangen fywiog a chyfeillgar ac mae rhaglen amrywiol wedi ei threfnu, fydd yn apelio at ferched o bob oedran. Apeliwn i'n haelodau presennol geisio dod â ffrind gyda hwy i ymuno yn y gweithgareddau. Bydd croeso mawr iddynt a chyfle i fwynhau a gwneud ffrindiau newydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Yr ydym yn cyfarfod ar yr ail nos Fercher o bob mis.

DINORWIG

Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291

DYMUNIADAU GORAU. A gwyliau'r haf yn dirwyn i ben, carem ddymuno yn dda i'r bobl ifanc a fydd yn gadael yr ysgol ac yn mynd i wahanol golegau neu i swydd eraill ac, wrth gwrs, i'r plantos bach fydd yn mynd i'r ysgol am y tro cyntaf heb wybod beth sydd o'u blaenau. Llongyfarchiadau i'r rhai sydd wedi llwyddo yn yr arholiadau. Dymuniadau gorau a phob lwc i'r holl blant i'r dyfodol.

PEN BLWYDD. Cyn y daw yr Eco allan o'r wasg fe fu Mr Andrew Griffith, Tan y Bwlch, yn dathlu ei ben-blwydd yn 95. Pen-blwydd hapus iawn i chwi. Deall nad yw Andrew nac Alice yn mwynhau iechyd gorau y dyddiau yma, y ddau yn cwyno cryn dipyn felly, fel ardal, yr ydym yn gobeithio am wellhad buan a gwell dyddiau i ddod i chwi eich dau.

DIOLCH. Dymunaf ar ran fy hun, Tom a'r genod, ddiolch o galon am y caredigrwydd mawr a dderbyniom fel teulu ar farwolaeth y diweddar Mr Alun Roberts, 100 Ffordd Caernarfon. Tom a'r genod wedi colli eu tad a'u mam mewn llai

na phedwar mis. Yr oedd y caredigrwydd yn gymorth mawr i ni fel teulu i ymgodymu â'r profedigaethau a sylweddoli fod Duw yn gofalu amdanom.

Diolch o galon i'r Parchedig Ddoctor Carol Roberts am ei geiriau caredig ac am y ffordd urddasol y bu iddi ymgymryd â' threfn y gwasanaeth claddu. Diolch iddi am ddarllen, yn ystod y gwasanaeth, deyrnged cyn-Esgob y Gadeirlan, sef Esgob Saunders Davies, i Alun a Matilda. Teyrnged nad aiff byth yn angof.

Diolch am bob gair o gydymdeimlad, galwadau ffôn, ymwelwyr, y cardiau a'r holl arian a dderbyniwyd tag at Ambiwylans Gogledd Cymru, gyda mawr ddiolch i hogiau ambiwlans gorsaf Amlwch. Diolch i'r llu a wnaeth amser i ddod i'r gwasanaeth yn yr eglwys i dalu eu teyrnged olaf i Alun.

Mawr ddiolch i'r trefnwyr angladdau, sef Mr John Owen Williams, a Geraint, y mab, o Fiwmares am drefniant trylwyr ac urddasol. Diolch o galon, John a Geraint.

Stôf Draddodiadol neu FODERN i gynhesu eich tŷ

fflam .biz

JOHN HUGHES a'i FAB
IARD LO · Carmel · Gwynedd
01286 882160

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

ORIAU AGOR
6 a.m.-7.30 p.m.
(Llun-Sadwrn)
6 a.m.-3 p.m. (Sul)

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth fudiadau gwirfoddol yr ardal erbyn diwedd Medi. Rhaid cyflwyno mantolen ariannol y mudiad gyda'r cais.
Cenis, Deiniolen. LL55 3LU

Crynodeb o gyfarfodydd Gorffennaf.

Gweddi. Offrymwyd y weddi agoriadol gan Richard Llwyd Jones.

Beran. Dywedodd Mrs Larsen ei bod yn bwriadu bod yn bresennol yng ngwrandawriad yr apêl am drwydded alcohol 24awr i Beran ar y 9ed o Orffennaf, ond y buasai'n rhaid iddi gynrychioli'r Cyngor Cymuned gyda llythyr i gadarnhau hynny. Penderfynwyd ei chefnogi. Ychwanegodd Hefin Williams bod ffenest Post Rhiwlas wedi ei malu nos Sadwrn diwethaf a difrod wedi ei wneud i Neuadd y Pentref.

Cartref Nyrsio Penisa'rwaun. Derbyniwyd rhybudd Gwynedd o ddyddiad gwrandawriad yr apêl i helaethu defnydd y cartref. Gwirfoddolodd Phyllis Ellis i gynrychioli'r Cyngor yn yr apêl - llythyr i Wynedd.

Map/hanes/teithiau'r gymuned. Llythyr Dafydd Einion Jones yn dweud bod Cyngorau eraill am ddilyn esiampl Llanddeiniolen a'i fod yn bwriadu trefnu cyfarfod gyda chymunedau Llanberis, Y Felinheli, Llanrug a Llanddeiniolen yn ystod Mis Medi. Nid oes cyllid, bellach, o'r gronfa a gefnogodd Map Hanes Llanddeiniolen ond mae posibilïadau eraill wrth weithio ar y cyd. Penderfynwyd i'r Cadeirydd Phyllis Ellis, Len Jones a'r Clerc fynychu'r cyfarfod, gofyn iddo wahodd Gareth Roberts hefyd a gadael y dyddiad tan hanner olaf Medi.

Cwch yn Stryd Uchaf Rhiwlas. Ateb Gwynedd - bydd y Rheolwr Gofal Stryd yn ymdrin â'r mater.

Gohebiaethau a materion eraill.

Lochesau bws Bethel. Ar gais Huw P. Hughes penderfynwyd gofyn am brisiau i'w paentio.

Llyfrgell Deiniolen. Dywedwyd bod y llyfrgell yn cau am 5.00 yn lle 6.00 o'r gloch. Penderfynwyd gofyn i Wynedd barhau'r oriau tan 6.00 oherwydd bod ei hangen ar ôl amser gwaith. Pam y newid. Mae llyfrgell Llanberis ar agor tan 6.00.

Cynllunio

Derbyniwyd pedwar cais a chaniatawyd pedwar cais gan Wynedd.

Llwybrau

Rhannwyd copïau o Categorïau Gwynedd i bob aelod i'w cymharu â'r rhestr llwybrau a gylchredwyd ym Mehefin. Bydd Gwynedd yn barod i ystyried newid categorïau llwybrau os oes rhesymau i wneud hynny. Dywedodd Pat Jones bod giât ddiffygiol ar lwybr 12 - Rhwng y Ddwryd i Cefn y Waun - cwyn i Wynedd.

Llwybr 75A - Porth y Gogledd i fyny, gofynnodd Len Jones am atgoffa Gwynedd o gyflwr wyneb y llwybr yma a hefyd llwybr 126 (Zig-Zag) o Ddinorwig i'r Allt Ddu - oes dargyfeiriad wedi ei wneud ar ôl cau rhan o waelod y llwybr?

Cofebion

Penderfynwyd gwneud ymholiadau ynglŷn â chofebion Cefn y Waun ac, os bydd modd cael mynediad i'r adeilad, gofyn am brisiau i'w symud i Macpella.

Cofeb y Chwarelwyr, Dinorwig: gwirfoddolodd Gwilym Williams ei glanhau.

Addawodd y Clerc baratoi rhestr, i gyfarfod Medi, o'r cofebion a phwy sy'n gyfrifol am eu cynnal a'u cadw.

Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf: 21ain o Fedi.

CYNGOR CYMUNED LLANRUG

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 22ain o Fehefin penderfynwyd:

1. Ethol Avril Jones yn Is-Gadeirydd y Cyngor am 2010-11.

2. Archebu 8,000 o bamffledi yn rhoi gwybodaeth am lwybrau'r Gymuned ac i'w dosbarthu i dai'r ardal a chael lansiad swyddogol o'r pamffled gyda Gareth Roberts a Dafydd Whiteside Thomas.

3. Cael pris am fainc newydd yn lle'r un a ddifrodwyd yn Nhancoed.

4. Cael clo newydd i'r Cae chwarae ger Nant y Glyn.

5. Peidio llenwi'r ffos pen draw Cae Chwarae Pwllmoelyn gan na fyddai unman i ddwr glaw fynd.

6. Hysbysu Cyngor Gwynedd fod twll ar lwybr Ogwen ger ble'r oedd y giât mochyn yn arfer bod.

7. Trefnu cyfarfod safle gyda Chyngor Gwynedd a thrigolion Llain Gro i drafod y llwybr ger Llain Gro.

8. Nad oedd gwrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:

- Cais i godi estyniad uwchben estyniad to fflat presennol ar gefn yr eiddo - Llecyn, Llanrug.

- Cais am ganiatâd dros dro i osod cynhwysydd ar gyfer storio cyfarpar ar gae pêl-droed presennol - Cae Chwarae Nant y Glyn, Llanrug

- Cais i godi estyniadau ochr a chefn - 58 Glanffynnon, Llanrug

- Cais i godi estyniad unllawr ar ochr yr eiddo - Tre Ifan, Llanrug

- Cais materion a gadwyd yn ôl - Llain o dir cyfagos i Pen y Buarth, Llanrug

9. Hysbysu Cyngor Gwynedd fod twll yn y palmant ger Pen y Cae ar ôl i arwydd gael ei dynnu ac ar y ffordd i lawr Stad Glanffynnon.

10. Penderfynwyd ysgrifennu at Swyddfa'r Urdd ym Mangor i ofyn am gyfarwyddyd/

cefnogaeth ynglŷn â threfniadau codi arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Eryri yn 2012 yn Llanrug a Chwmyglo.

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd 20fed o Orffennaf 2010 penderfynwyd:

- Peidio cael fainc newydd yn Tan y Coed ar hyn o bryd gan fod cymaint o fandaliaeth yn yr ardal.

- Cysylltu gydag Asiantaeth yr Amgylchedd eto am y broblem dŵr yng Nghae Chwarae Pwllmoelyn.

- Nad oedd gwrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:

1. Cais i ddymchwel annedd presennol ynghyd â chodi annedd deulawr yn ei le - Afonwy Cottage, Pontrug.

2. Cais am ddyfarniad ar gyfer ymestyn adeilad amaethyddol presennol i gadw peiriannau - Dolgynydd Ucha, Pontrug.

- Na fyddai'r Cyngor yn cyfrannu i Gronfa R H Owen gan fod safle we'r Comisiwn Elusennau yn dangos mai Llanberis yw ardal gweithredu'r elusen ac mai dibennion yr elusen yw i rannu grantiau i bobl yn Llanberis.

- Gofyn i Hefin Pritchard drwsio'r wal sydd wedi disgyn ar y ffordd i'r fynwent.

- Hysbysu Cyngor Gwynedd fod gwter wedi torri ger 2 Erw Hywel a bod dŵr yn llifo i lawr at y tai.

- Hysbysu'r Adran Cynllunio fod wal uchel wedi ei hadeiladu yng ngardd Trigfa ar Ffordd yr Orsaf a holi os oedd angen cais yn y lle cyntaf.

- Hysbysu Cyngor Gwynedd fod sbwriel yn casglu yn stad Minffordd (ger y llwybr at Ffordd Glanffynnon) a bod yr eithin angen eu torri yno.

- Cysylltu gyda'r Swyddog Coed i ofyn a ellir gwarchod coed nad oedd wedi eu gwarchod ar hyn o bryd yn y gymuned.




Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC WINDOWS**

**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

**HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG**



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



ARVONIA

CONCEPT TRAVEL

cpt

- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grwp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126

E-bost: info@arvoniaco.uk • Gwefan: www.arvoniaco.uk



Ar Ben Arall y Lein

Dyma un o'r tymhorau mwyaf di-nod ar y Seiont ers rhai blynyddoedd. Fe gafwyd dechrau cymharol dawel gyda dim brithyll bron o gwbwl yn dod i'r rhwyd. Do, fe gafwyd tipyn o hwyl gyda'r eogiaid a oedd ar eu ffordd yn ôl am y môr, ond yn y pen draw yr unig gyfeirydd mae hyn yn ei roi yw'r gwir gryfder ar y nifer o Eogiaid oedd yn yr afon ar amser bwrw grawn yn nhymor 2009. A calonogol iawn yw hyn am y dyfodol.

Ond beth am y presennol? Nid yw pethau'n argoeli'n dda. Ar ôl y problemau a ymddangosodd yn wreiddiol yn ystod 1992 fe fu rhaid ddisgwyl hyd at 2004 i bethau ddechrau gwella o ddifri, a dyma ni eto wedi gorfod wynebu problemau gwaeth yn ystod 2009, gyda'r un dirywiad yn nifer y pysgod fel y brithyll brown a'r sewin. A fydd raid ddisgwyl 12 mlynedd arall i weld pysgota derbyniol unwaith eto? Ar amseroedd fel hyn byddaf yn teimlo fel rhoi'r ffidil yn y to, gan ei bod yn ddigon amlwg i mi erbyn hyn fod y cythraul sy'n angenrheidiol i ddod â pen terfyn go iawn i broblemau enfawr fel hyn yn absennol o'r awdurdodau perthnasol. O yndi, mae'r gallu ganddynt i wneud hyn ond y cwestiwn mawr ydi a yw'r ewylllys yna, a dyma rwy'n gwestiynu.

Cyn belled ac mae'r Gymdeithas Bysgota yn y cwestiwn, a oes dyfodol neu'r posibilrwydd i gario mlaen fel yn y presennol. Eleni, oherwydd fod problemau Padarn yn ystod 2009 wedi gwneud y sustem yn amhosib i bysgota y canlyniad, wrth gwrs, oedd fod gwerthiant tocynnau ymwelwyr i lawr i bron ddim. Yn dilyn eleni mae'r tocynnau tymhorol lleol i lawr yn sylweddol. Mae hyn yn golygu fod ein incwm o ddalgylch Padarn/Seiont bron wedi sychu i fyny.

Ar amser o argyfwng fel hyn mae ein polisi o brynu hawliau dros y blynyddoedd yn profi yn werthfawr dros ben, gan fod rhan fawr o'n dyfroedd yn rhydd o orfod bwydo rhenti blynyddol a phrydlesu tymor hir sy'n gorfod cael eu talu ar bris y farchnad Brydeinig am hawliau 'sgota. Mae rhain wedi gorfod cael eu talu eleni i dirfeddianwyr fel Stad y Goron a Chyngor Gwynedd, ond rhaid diolch i berchnogion fel ffermwyr a thirfeddianwyr lleol sydd wedi cytuno i ohirio eu derbyniadau hyd nes ymlaen y tymor. Heb rhain mi fuasai'n ddu iawn. Ond un pendantsrwydd sydd yw bod gwerth hawliau Pysgota ar Lyn Padarn a'r Afon Seiont nawr heb werth ariannol o gwbwl – pwy yn eu meddyliau iawn sydd am dalu

am ddim byd ond efallai am yr hawl i gerdded tir, ond mae pawb eisiau hyn am ddim heddiw hefyd.

Bydd rhaid disgwyl i weld be a ddaw yn y misoedd nesaf neu bydd yn rhaid wynebu newid aruthrol yng ngallu'r Gymdeithas i gynnig pysgota yn ein dull lleol presennol. A yw'r bwgan mawr o'n hawliau yn cael eu rheoli o dros Glawdd Offa, heb arian a heb hyblygrwydd cyrff fel Stad y Goron a Chyngor Gwynedd? Yndi, mae hyn yn bosibilrwydd cryf. Cawn weld wedyn be fydd raid dalu am 'sgota!

Ar y gweddill o'n dyfroedd, fel Afonydd Llyfni a Gwyrfa, ac yn enwedig Llynnoedd Cwellyn, Dywarchen a Nantlle, mae pethau yn rhedeg yn eithriadol. Mae stocio Dywarchen yn boblogaidd dros ben a, gyda Cwellyn a Nantlle yn eithriadol gyda'r brithyll brown, heb flewyn ar fy nhafod fe allaf ddweud fod y dyfroedd yma ymysg y gorau yng Nghymru am ein brithyll cynhenid. Da o beth yw hyn, wrth gwrs, gan fod incwm tocynnau drwy y Cwellyn Arms, Rhyd Ddu, yn angenrheidiol i allu talu'r rhent a'r costau sylweddol sydd i'w talu fel bod y dyfroedd yma ar gael i'n pysgotwyr lleol a'r ymwelwyr sydd mor bwysig i economi'r ddau ddyffryn. Rhaid hefyd ystyried beth yw costau rhedeg ein fflyd o gychod a'r adnoddau eraill. Mae un peth yn sicr, heb waith trylwyr yr ychydig rai sy'n rhoi o'u hamser yn wirfoddol, ni fuasai'n bosib cynnal pethau ar y safon presennol.

A pwy ddywedodd fod pysgota a rhedeg clwb 'sgota yn hawdd a boneddigaidd!!

CYSTADLEUAETH BÊLDROED DAN 13 YN EITHIN DUON

Ddydd Sul y 5ed o Fedi bydd cystadleuaeth i dimau dan 13 ar gae peldroed Llanrug. Cystadleuaeth cwpan Siemens Healthcare D.P. yw hi. Cychwynir am 9:30 y bore a bydd y gem derfynol am 5 y pnawn.

Fe ddylai'r diwrnod fod yn wledd o beldroed gan fod y timau sy'n cystadlu gyda'r gorau yng ngogledd Cymru a sawl un yn bencampwyr eu cynrhair.

Y timau fydd Llanrug, Tref Dinbych, Llanfairpwll, Caergybi a Bae Penrhyn.

Croeso i bawb ymuno yn yr hwyl. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael drwy'r dydd.

Ddechrau Gorffennaf collwyd un o aelodau mwyaf ffyddlon y Gymdeithas, sef Oscar Evans, Bro Eglwys, Bethel. Roedd Oscar yn un o bysgotwyr mwyaf llwyddiannus, nid yn unig y fro yma a Chymru, ond hefyd y Deyrnas Unedig. Bu'n hir aelod o dim pysgota pluen Rhyngwladol Cymru a Thim Heddlu Cymru. Ar un cyfnod bu'n cystadlu dros Gymru yng Nghystadleuaeth Pencampwyr Pysgota Afonydd y Byd yn y Ffindir, ple daliodd ddau frithyll gyda phwysau o 8bwys llowns a 6pwys 5owns. Bu yn aelod blaenllaw o'r Gymdeithas Bysgota gan wasanaethu ar y Pwyllgor gwaith am flynyddoedd lawer, gyda diddordeb arbennig mewn rhoi

cyfleon i'r anabl allu cael mynediad i'r dyfroedd. Ar ddiwedd 1979 fe ofynnodd i mi a fuaswn yn fodlon ymgymryd â swydd Ysgrifennydd y clwb am flynyddyn. Ia, blwyddyn! A dyma fi yn dal i fod wrthi ers 31 o flynyddoedd – ond dyma'r flynyddyn olaf!

Mi ddaw cyfle eto, gobeithio, i wneud cofnod o'r holl ddigwyddiadau dros y blynyddoedd. Fe frwydrodd frwydr galed yn erbyn salwch blin dros nifer o flynyddoedd, ond mi fyddai ei agwedd yn bositif am y dyfodol bob amser. Er hyn i gyd, mae'r golled yn enfawr i Mary a'r holl deulu. Diolch, Oscar, am dy gwmni.

HUW PRICE HUGHES

RASIO MYNYDD

Ers i'r rhifyn diwethaf ymddangos, daeth Cyfres Nos Fawrth y Great Arete i ben, a'r ras olaf yn cael ei chynnal o Lanberis i gopa Moel Eilio ac yn ôl. Cyn hynny, bu'r plant ieuengaf yn cystadlu ar y caeau serth gyferbyn â'r Hostel Ieuencid, a braf gweld yr oedolion o redwyr yn cymeradwyo a chefnogi rhedwyr mynydd y dyfodol. Cynhaliwyd y gwobrwyo yn Llanberis yn ddiweddarach y noson honno, a daeth nifer helaeth o blant y fro hon i'r brig yn y gwahanol gystadlaethau.

Bu llwyddiannau hefyd yn y gwahanol adrannau i'r oedolion. Jenny Heming o'r Fachwen oedd y ferch gyntaf yn y gyfres. Bridget Ripley a Stel Farrar o'r un ardal oedd y ddwy ferch gyntaf dros 50 oed, a Maggie Oliver o Ddinorwig ddaeth yn gyntaf dros 60 oed. Ymhlith y dynion, Paul Jenkinson o'r Waunfawr oedd y dyn cyntaf dros 40 oed; Arwel Lewis o Fethel y cyntaf dros 50 oed a Dafydd Thomas, Llanrug y cyntaf dros 60 oed.

Llongyfarchiadau hefyd i Jenny Heming am gael ei dewis i gynrychioli Cymru yn Ras yr Wyddfa, a rhedeg ei hamser gorau erioed yn y ras. Daeth llwyddiant lleol hefyd i Noel Craine, Llanberis, yn gyntaf dros 40 oed; Arwel Lewis yn gyntaf dros 50 oed a Gwynfor Owen, Llanberis, yn gyntaf dros 55 oed.

Cynhaliwyd dwy ras leol arall yn ystod Awst, sef Y Garn, Rhyd-ddu ac Elidir fawr o Nant Peris. Roedd yr amgylchiadau i'r ddwy ras yn wlyb a llithrig yn dilyn y glawogydd cyson a gafwyd gydol y mis. Yn Rhyd-ddu daeth Arwel Lewis yn gyntaf dros 50 oed a Dafydd Thomas yn gyntaf dros 60 oed. Maggie Oliver oedd yr unig

ferch leol i gystadlu a daeth hithau'n gyntaf dros 60 oed. Yr un tri aeth â'r gwobrau ar yr Elidir hefyd, gyda Jenny Heming yn ail yn adran y merched a Stel Farrar yn gyntaf i ferched dros 50 oed.

Erbyn i'r rhifyn hwn o'r 'Eco' ddod o'r wasg bydd rasys Mynydd Llandegai a'r Cnicht wedi eu cynnal, a ras fawr Pedol Peris ar y gorwel. Wedi hynny, bydd y gaeaf, a rasys traws-gwlad yn wynebu'r rhedwyr.

THEATR BARA CAWS

Gwlad yr Addewid

Cyfieithiad i'r Gymraeg o stori ffrwydrol ac angerddol Ed Thomas, *House of America*, am frwydr anobeithiol dyn yn erbyn amgylchiadau a diwedd y freuddwyd Americanaidd mewn tref ddiwydiannol yn ne Cymru yn yr 1980au. Adrodda *Gwlad yr Addewid* stori teulu'r Lewisiaid – Sid, Boyo a Gwenny, sydd yn edrych ar ôl eu mam ecsentrig wedi i'w tad eu gadael gyda'r honiad o geisio canfod bywyd gwell yn yr Amerig. Mae'r plant yn ysu am gael dianc yn yr un modd a'u tad ond mae'r sefyllfa yn un anobeithiol gan fod prinder swyddi yn y dref fach, a Mam ddim yn fodlon i'w meibion hi weithio yn y gwaith glo brig, sydd yn taflu ei gysgod llwyd dros y tŷ. Rebelio yn erbyn eu hamgylchiadau a wna Sid a Gwenny, gyda chanlyniadau hunan ddinistriol. Mae eu ffantasiau yn dechrau gafael ynddynt... gan adael Boyo a Mam ar ôl gyda'r gwirionedd creulon.

Dyma'r tro cyntaf i'r ddrama hon gael ei pherfformio yn broffesiynol yn y Gymraeg.

Galeri, Caernarfon
14-16 Medi am 7.30

CHWARAEON

ENNILL YR HAWL I WISGO CRYD CYMRU



Llongyfarchiadau i Owain Llŷr James o Ddeiniolen ar gael ei ddewis i gynrychioli Cymru yng nghystadlaethau Triathlon. Rhoddwyd sylw i'w lwyddiannau rai misoedd yn ôl yn yr 'Eco', a braf gweld fod y llwyddiant hwnnw yn parhau.

Nid yr Eisteddfod Genedlaethol yn unig oedd yn cael ei chynnal ym Mlaenau Gwent fis Awst. Yn dilyn yr eisteddfod, cynhaliwyd treialon Treiathlon Cymru ym Mharc Bryn Bach, Tredegar, ganol Awst. Roedd y rasio yn cychwyn am naw o'r gloch y bore gyda nofio 600 metr. Mae Owain yn nofiwr cryf, a daeth allan o'r dŵr yn ail, ond roedd ar y blaen erbyn cyrraedd y beics, a ras o 12 k ar gwrsg technegol iawn yn ei wynebu. Yn ystod y ras feics cafodd ei basio gan fachgen o Lanelli, a hwnnw, maes o law

oedd yn fuddugol. Ond roedd dycnwch Owain yn ddigon i'w gadw yn dynn wrth ei sodlau yn ystod y ras redeg 3km, a gorffennodd yn ail.

Doedd y canlyniad ynddo'i hun ddim yn ddigon i olygu crys i Gymru. Roedd canlyniadau rasys eraill dros y tymor yn cael eu hystyried hefyd. Ond bu'n flwyddyn brysur i Owain, gan iddo ennill Aquathon Salford ym Manceinion a dod yn 13eg ym Mhencampwriaeth Aquathon Prydain yn Llundain. Roedd y llwyddiannau hyn a'i safle yn Nhredegar yn ddigon, ac ar y pedwerydd ar bymtheg o Fedi bydd Owain yn dychwelyd i Dredegar i gynrychioli Cymru yn erbyn gwledydd eraill Prydain. Pob lwc iddo yn y gystadleuaeth honno, ac edrychwn ymlaen am adrodd yr hanes yn y rhifyn nesaf o'r 'Eco'.



SUT MAE'N PLESIO?

Beth yw'r farn am *Sgorio* bnawn Sadwrn? Gêm o gynghrair Cymru yn fyw. Hyd yn hyn caed dwy gem dda, llawn cyffro a digon o goliau. Torf fwya'r tymor hyd yn hyn ar Faes Tegid y Bala er bod y gêm yn fyw ar y teledu. Rhaid oedd cychwyn y rhaglen am 3pm oherwydd dyma'r unig slot nad oedd yn cystadlu â gêm amser cinio Sky. Ni ellir dianc o'r ffaith mai gemau o Loegr sy'n rheoli ein patrwm o wyllo pêl-droed, boed draw yn y cae neu o gadair esmwyth.

Ai syniad fuasai cychwyn gemau lleol i gyd am 2pm i roi cyfle i chwaraewyr a chefnogwyr lleol weld mwyafrif o'r gemau byw? Rhaid oedd chwerthin Sadwrn diwethaf. Gwyllo y gêm o'r Bala,

a sawl un yn gofyn i mi ble'r oedd Caerlewelydd, Caerwysg a mannau cyffelyb pan ddeuai'r canlyniadau ar y sgrin. 'Yn yr Ysgol mi gês lessons History, lessons Geography, lessons...'

UN SYDYN I ORFFEN...

Sut mae Dean Saunders yn cadw ei le fel rheolwr Wrecsam? A lwyddodd unrhyw reolwr i arwyddo cyn gymaint o chwaraewyr erioed? Nid yw yn deall ethos y gynghrair y Blue Square. Nid yw am ddod allan ohoni gyda pêl-droed pert.

Gobeithio na fydd yn amharu ar ddatblygiad y chwaraewyr dawnus yng ngharfan Cymru. Gwell fuasai i Saunders fynd o'r Cae Ras rŵan cyn creu mwy o lanast!

CLWB PÊL-DROED LLANRUG



Siôn Stokes o Arvonnia yn cyflwynio y cit i Bryan Williams, Cadeirydd y Clwb ac Aled Owen, Rheolwr y Tîm Cyntaf gyda'r chwaraewyr, Eifion Williams a Ceirion Williams.

Mae Clwb Pêl-droed Llanrug United yn ddiolchgar iawn i gwmni Arvonnia o Lanrug am noddi cit pêl-droed newydd i'r Tîm Cyntaf.



SUT DYMOR FYDD HI'N LLEOL?

Fe wibiodd yr haf a daeth tymor 'cicio gwynt' ar ei hald unwaith eto. Tymor yr ail-wampio fydd hi eleni. Mae mwy o gynghreiriau bron iawn na thimau. Fe glywir hen gri yn ôl! 'C'mon Llanbabs! Braf hynny a dymunwn yn dda a diolch i'r ychydig â gadwodd y fflam yn fyw.

Bu ailwampio ar hen Gynghrair Arfon, a tybed a fuasai'n well mynd yn ôl i un gynghrair. Un 'gêm ddarbi' fydd gyda ail dîm Llanrug yn herio Waunfawr, ond gobeithio gall Llanbabo ymuno â nhw y tymor nesaf.

Roedd Bethel wedi gwneud cais i ymuno a chynghrair yr Alliance ond, o drwy ch blewyn, roeddent yn anffodus. Yn sicr, rhaid canmol y clwb am y cyfleusterau ar Gae Coed Bolyn erbyn hyn. Gobeithio y cânt hwy eu cyfle yn y dyfodol agos.

Llanrug a Llanberis fydd y ceffylau blaen eto eleni, ond bydd y ddau yn siomedig â'u perfformiadau ar ddechrau'r tymor. Daeth y ddau yn ôl o Gaergybi wedi colli 6-1. Gyda Llanfairpwll yn rhoi chwip din i Bethel 6-1 hefyd, gwell fyddai

i'n timau lleol gadw'n glir o'r ynys am ychydig, beth bynnag. Er, fe lwyddodd Llanberis i roi y newydd ddyfodiad o Walchmai yn eu lle o 2-0 ar Faes Padarn.

Gemau cwpan Cymru a Thlws F.A.W. ddenodd sylw y Sadyrnau cynnar, ac yn anffodus ni ddaeth llwyddiant. Bethel, Llanrug a Llanberis yn ffarwelio wrth y glwyd gyntaf yng Nghwpan Cymru. Roedd cryn edrych ymlaen at yr ail gwpan, yn enwedig o gofio gorchestion Llanberis y tymor diwethaf. Yn anffodus, ni fyddaf yn dilyn helyntion timau lleol yn y gwpan yma chwaith.

Ar y cychwyn mae'n ymddangos mae rhyw dymor 'canol y gynghrair' fydd hi i'n timau lleol eleni. Gyda chwe thîm yn ardal yr Eco gall rhywun weld y broblem o gael digon o chwaraewyr safonol i greu tîm llwyddiannus i herio am y tlysau. Yn sicr, ymysg carfanau ein timau lleol mae rhai fydd yn denu sylw clybiau mwy ariannog Gwynedd. Amser a ddengys, gan obeithio y gwreiddwyd dywediad yr hen Greavsie erstalwm - 'it's a funny old game!'